



Briff Ymchwil  
**Cymru a'r UE: Beth mae'r bleidlais  
i adael yr UE yn ei olygu i Gymru?**

---

Cynhyrchwyd gan: **y Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaeth  
Cyfreithiol a Swyddfa'r UE**  
Dyddiad: **Mehefin 2016**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynhyrchwyd gan: **y Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaeth Cyfreithiol a Swyddfa'r UE**  
Dyddiad: **Mehefin 2016**  
Rhif Papur: **16-037**

## Cysylltwch â ni

Swyddfa UE ,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  
Ty Cymru,  
6-ed Llawr,  
11 Rond Point Schuman,  
Brwsel,  
Gwlad Belg B-1040

☎ : 0032 (0)2 226 6692  
☎ : 0032 (0)466 315750  
✉ : [Gregg.Jones@Cynulliad.Cymru](mailto:Gregg.Jones@Cynulliad.Cymru)  
🌐 : [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)  
🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)  
🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

Y Gwasanaeth Ymchwil,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  
Tŷ Hywel,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd,  
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6298  
✉ : [Robin.Wilkinson@Cynulliad.Cymru](mailto:Robin.Wilkinson@Cynulliad.Cymru)  
🌐 : [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)  
🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)  
🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Cymru a'r UE: Beth mae'r bleidlais i adael yr UE yn ei olygu i Gymru?

---

Yn dilyn y bleidlais i adael yn refferendwm yr UE a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, rydym wedi paratoi'r Papur Ymchwil hwn i drafod goblygiadau hyn ar gyfer Cymru ac ar gyfer gwaith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

---



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Cymru a'r UE.....</b>	<b>5</b>
Yr hyn yw'r UE a sut mae'n gweithio .....	5
Cylchoedd gwneud penderfyniadau yr UE.....	7
Perthnasedd i Gymru a'r DU .....	7
Yr UE a chymwyseddau datganoledig .....	8
Dylanwad ac ymgysylltiad Cymru â gwneud penderfyniadau yn yr UE .....	8
Ymgysylltu gan y Cynulliad .....	10
Senedd Ewrop a'r ASEau o Gymru .....	11
Monitro sybsidiaredd.....	11
Partneriaeth a rhwydweithio.....	12
<b>3. Tynnu allan o'r UE.....</b>	<b>13</b>
Hysbysu.....	13
Trafod.....	14
Cynnwys sefydliadau datganoledig yn y trafodaethau .....	14
Cymryd rhan yn y broses drafod.....	15
<b>4. Modelau amgen i aelodaeth o'r UE .....</b>	<b>18</b>
Model Norwy.....	18
Cytuniadau dwyochrog wedi'u trafod .....	18
Model Sefydliad Masnach y Byd yn unig .....	19
Modelau y tu allan i'r UE ar gyfer cysylltiadau masnach ryngwladol .....	19
<b>5. Goblygiadau cyfreithiol pleidleisio i Arael .....</b>	<b>21</b>
Goblygiadau ar gyfer deddfwriaeth sydd mewn grym .....	21
Effaith pleidlais i adael ar Fil Cymru 2016.....	22
<b>6. Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar feysydd polisi datganoledig yng Nghymru.....</b>	<b>23</b>
Amaethyddiaeth a materion gwledig (gan gynnwys lles anifeiliaid) .....	23
Y Môr a Physgodfeydd .....	24
Polisi Cydlyniant yr UE (Cronfeydd Strwythurol).....	25
Yr Amgylchedd.....	26
Ynni a newid yn yr hinsawdd .....	28
Polisi iechyd a gofal cymdeithasol.....	30

Addysg.....	31
Y Gymraeg, diwylliant a thwristiaeth.....	32
Y Farchnad Sengl .....	33
Masnach.....	33
Cysylltedd.....	35
Ymfudo a'r UE.....	35
<b>7. Arian yr UE a mynediad at Fanc Buddsoddi Ewrop.....</b>	<b>38</b>
Cefndir .....	38
Cyfraniad net Cymru i gyllideb yr UE .....	39
Effaith bosibl gadael yr UE ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru .....	39
Cyllid yr UE yng Nghymru yn dilyn gadael yr UE.....	39
Banc Buddsoddi Ewrop.....	40
<b>Atodiad 1: Cynrychiolaeth a chyfranogiad Cymru ar lefel yr UE .....</b>	<b>41</b>
Sefydliadau'r UE a Chyrff Ymgynghorol .....	41
<b>Atodiad 2: Ffynonellau a deunydd darllen pellach.....</b>	<b>43</b>
Yr Undeb Ewropeaidd .....	43
Llywodraeth y DU.....	43
Adroddiadau gan Senedd y DU / y deddfwrfeydd datganoledig.....	43
Ffynonellau academiaidd a melinau trafod .....	44
Iwerddon.....	45

# 1. Cyflwyniad

Yn dilyn y bleidlais i adael yn refferendwm yr UE a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, rydym wedi paratoi'r Papur Ymchwil hwn i drafod goblygiadau hyn ar gyfer Cymru ac ar gyfer gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Dyma'r cyntaf yn yr hyn rydym yn disgwyl y bydd yn gyfres reolaidd o ddiweddariadau wrth i'r broses o dynnu allan ddatblygu dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf.

Mae'r ffeithlun isod yn rhoi dadansoddiad manwl o'r bleidlais ledled y DU, gan gynnwys canlyniadau Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rydym hefyd wedi cynnwys ffeithlun yn dangos dadansoddiad o'r bleidlais fesul awdurdod lleol yng Nghymru.

Pleidleisiodd y DU yn ei chyfanrwydd gan 51.9% i adael yr UE. Yng Nghymru, roedd y bleidlais i adael yn 52.5%.

Lloegr oedd y rhan o'r DU â'r bleidlais adael uchaf (53.4%), tra mai'r Alban oedd â'r bleidlais adael isaf (38.0%). Yng Nghymru, Blaenau Gwent oedd â'r bleidlais adael uchaf (62.0%) tra mai Caerdydd oedd â'r bleidlais adael isaf (40.0%).

Roedd y ganran a bleidleisiodd yng Nghymru yn 71.7%, o'i gymharu â 72.2 ledled y DU. Yng Nghymru, Sir Fynwy oedd â'r ganran uchaf a bleidleisiodd (77.7%) a Merthyr Tudful oedd â'r ganran isaf a bleidleisiodd (67.4%).

Bydd gadael yr UE yn arwain at oblygiadau mawr i waith y Cynulliad ac ar gyfer y rhyngweithio rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau datganoledig a bydd yn cael lle blaenllaw yng ngwaith y pumed Cynulliad.

Gan mai dyma'r tro cyntaf y bydd Aelod-wladwriaeth wedi gadael yr UE nid oes unrhyw lasbrint ar sut y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol. Cafodd Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd, sy'n nodi'r broses gyfreithiol ar gyfer Aelod-wladwriaeth yn gadael yr UE, ei chyflwyno i Gytuniadau'r UE gan y newidiadau a wnaed o dan Gytuniad Lisbon (a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2009). Yn hynny o beth, mae'n dir newydd.

Mae'r papur briffio hwn wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

Mae **Adran 2** y papur hwn yn darparu rhywfaint o gyd-destun y cefndir drwy edrych ar yr hyn yw'r UE, sut y mae'n gweithio, a sut mae ei waith yn ymwneud â Chymru. Rydym yn defnyddio ymgysylltiad y Cynulliad a Llywodraeth Cymru â'r UE ers datganoli ac yn benodol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (2011-2016). Mae'r adran hon yn gosod y sefyllfa i helpu i ddeall sut y gallai tynnu allan o'r UE effeithio ar gymwyseddau datganoledig, yn ogystal ag archwilio'r rhyngweithio rhwng y gweinyddiaethau a'r deddfwrfeydd datganoledig gyda Llywodraeth y DU ar faterion yr UE.

Mae **Adran 3** yn edrych ar y broses o dynnu allan, gan ganolbwyntio ar Erthygl 50, a sut y gallai gael ei rhoi ar waith yn ymarferol. Yn benodol, rydym yn edrych ar beth fyddai llais Cymru yn y broses hon o bosibl, rôl y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, vis-à-vis buddiannau gweinyddiaethau a deddfwrfeydd datganoledig eraill y DU yn y broses hon. O bwys arbennig i'r Cynulliad ac i bobl Cymru fydd i ba raddau y bydd buddiannau a phryderon Cymru yn cael eu hadlewyrchu gan Lywodraeth y DU yn y trafodaethau ar dynnu allan, ac yn y trefniadau ôl-UE a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn y DU ar gyfer meysydd polisi lle mae'r UE ar hyn o bryd yn chwarae rhan sylweddol neu benderfyniadol. Bydd diddordeb hefyd yn ystyried y strwythurau mewnol y gellid eu defnyddio i fframio'r ddeialog rhwng y DU a'r gweinyddiaethau a deddfwrfeydd datganoledig.

Mae **Adran 4** yn ystyried modelau amgen gwahanol i aelodaeth o'r UE a'r hyn y gallai'r rhain ei olygu ar gyfer y DU ac i Gymru yn benodol. Mae hwn yn bwnc a dderbyniodd lawer o sylw a llawer o ddyfalu yn ei gylch yn y cyfnod yn arwain at Refferendwm yr UE. Tasg Llywodraeth y DU, a hynny yn ôl pob tebyg fel rhan o'r trafodaethau ffurfiol ar dynnu allan neu ochr yn ochr â hynny, fydd dadlau'r achos dros fodel arall. Bydd sut y maent yn gwneud hyn, a sut y maent yn cynnwys y Cynulliad a Llywodraeth Cymru (a'r gwledydd datganoledig eraill) yn hyn, o ddi-ddordeb arbennig i Gymru a rhanddeiliaid o Gymru.

Mae **Adran 5** yn ystyried goblygiadau cyfreithiol y bleidlais i adael, gan edrych ar yr effaith ar ddeddfwriaeth sydd mewn grym yn ogystal ag ystyried y perthnasedd i Fil Cymru 2016 a setliad datganoli Cymru yn y dyfodol.

Mae **Adran 6** yn ystyried yn fanylach effaith gadael yr UE ar y materion polisi ac ariannu sydd fwyaf perthnasol i waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Dylai'r adran hon, o'i darllen ar y cyd ag **Adrannau 2, 5 a 7**, roi i'r darllenydd ymdeimlad a dealltwriaeth ehangach o sut y mae materion yr UE yn ymwneud â Chymru a gwaith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Dylai hefyd roi i'r darllenydd syniad o lle y gallai fod bylchau a fydd angen gweithredu ar lefel y DU a Chymru.

Mae **Adran 7** yn edrych yn fwy penodol ar gyllid yr UE, gan gynnwys goblygiadau gadael yr UE o ran mynediad presennol Cymru at Gronfeydd Strwythurol, amrywiol raglenni'r UE, fel Horizon 2020 a Erasmus+, cyllid Banc Buddsoddi Ewrop (EIB), yn ogystal â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (a drafodir yn **Adran 6**). Rhagwelir y bydd Cymru yn cael tua €5 biliwn o gyllid yr UE yn ystod 2014-2020. Mae gadael yr UE yn debygol o weld mynediad i'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r arian hwn yn diflannu. O dan y modelau amgen, nid oes dewis - sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd - lle mae mynediad uniongyrchol i gyllid ar gyfer amaethyddiaeth neu gronfeydd strwythurol (ac eithrio'r Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol - lle mae Norwy yn talu ar gyfer cyfranogiad sefydliadau o Norwy yn y rhaglenni hyn - gweler **Adran 4** isod). Y rhain yw'r ddwy brif ffynhonnell o arian yr UE sy'n dod i Gymru, gan gynrychioli ymhell dros 90 y cant o arian yr UE a dderbyniwn. Bydd y camau a gymerir ar lefel y DU i ymdrin â hyn yn hollbwysig yng Nghymru.

# Refferendwm yr UE

## Canlyniad y DU gyfan

Gadael 51.9% 48.1% Aros

## Canlyniadau'r refferendwm fesul gwlad

### Lloegr

53.4% 46.6%

### Cymru


52.5% 47.5%

### Gogledd Iwerddon

44.2% 55.8%

### Yr Alban

38.0% 62.0%




Yn cynnwys data Arolwg Ordians  
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016. Arolwg Ordians 100047295





## Canlyniadau'r refferendwm yng Nghymru fesul awdurdod lleol



## 2. Cymru a'r UE

### Yr hyn yw'r UE a sut mae'n gweithio

Yn ei hanfod, mae'r UE yn 'glwb aelodaeth' rhyngwladol gyda set o reolau ar sut y caiff ei weithredu, pwy all ymuno, y broses ar gyfer ymuno, ei bwerau, a swyddogaethau a chyfrifoldebau ei aelodau. Mae ei aelodau'n 'Wladwriaethau Sofran', sy'n golygu mai'r aelod yn ein hachos ni yw'r DU - nid Cymru. Mae Cymru yn cael mynediad i'r UE, ac mae dinasyddion Cymru yn cael yr hawliau a ddaw gyda hynny, drwy aelodaeth y DU o'r UE.

Mae'r rheolau ar gyfer aelodaeth wedi'u cynnwys mewn dau gytundeb craidd - y **Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (TEU)** a'r **Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)** - y daeth yr iteriadau diweddaraf ohonynt i rym ym mis Rhagfyr 2009 (Cytuniad Lisbon).

Mae'r rheol ar sut y gall aelodau adael, sef Erthygl 50 o'r TEU, yn ddatblygiad cymharol newydd a ychwanegwyd gan Gytuniad Lisbon. Rydym yn edrych ar hyn yn fanwl yn **Adran 3** isod.

### Rhannu cymwyseddau

---

Un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r cytuniadau yw 'cyfuno' neu 'rannu' sofraniaeth mewn rhai meysydd o weithgaredd. Mae cytuniadau'r UE yn diffinio'r meysydd hyn, a sut y maent yn cael eu rheoli yn ymarferol: a hynny ar gyfer y cymwyseddau sy'n cael eu rhoi ar lefel yr UE a'r rhai sydd wedi eu rhannu rhwng Aelod-wladwriaethau a'r UE:

- **Cymhwysedd deddfwriaethol UE unigryw** (sef: undeb tollau, rheolau cystadlu, polisi ariannol ar gyfer y gwledydd hynny sydd wedi ymuno â'r Ewro, cadwraeth adnoddau biolegol morol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, polisi masnachol cyffredin);
- **Cymhwysedd deddfwriaethol a rennir** rhwng yr UE a'r Aelod-wladwriaethau (sef: y farchnad fewnol, polisi cymdeithasol, cydlynid economaidd a chymdeithasol a thiriogaethol, amaethyddiaeth a physgodfeydd, yr amgylchedd, diogelu defnyddwyr, cludiant, rhwydweithiau traws-Ewropeaidd, ynni, maes rhyddid a chyfiawnder a phryderon diogelwch cyffredin mewn materion iechyd y cyhoedd);
- **Cydlynu** rhwng Aelod-wladwriaethau mewn meysydd polisi economaidd a chyflogaeth;
- **Cymhwysedd yr UE i gefnogi, cydlynu ac atodi** gweithredoedd llywodraethau Aelod-wladwriaethau mewn nifer o feysydd diffiniedig (ee diogelu a gwella iechyd pobl, addysg, twristiaeth a diwylliant).

Cynhaliodd Llywodraeth y DU **Adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau** yn ystod 2012-2014 ac mae hyn yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr ar draws pob maes polisi yr UE sy'n effeithio ar berthynas y DU. Mae hwn yn adnodd ardderchog i ddarllenwyr sydd â diddordeb mewn edrych yn fwy manwl ar bolisiau penodol ar waith, a'r rhyngweithio rhwng lefelau polisi/deddfu y DU a'r UE yn y meysydd hyn.

### Cyfraith yr UE

---

Egwyddor allweddol arall yw uchafiaeth cyfraith yr UE o fewn meysydd a gwmpesir gan y Cytuniadau. Mae hyn yn golygu bod gan Aelod-wladwriaethau gyfrifoldebau i weithredu a chydymffurfio â chyfreithiau'r UE sy'n berthnasol iddynt.

Mae'r UE yn mabwysiadu cyfreithiau mewn nifer o ffyrdd gwahanol a bydd gan hyn oblygiadau o ran manylion y trafodaethau a fydd yn digwydd wrth i'r DU dynnu allan (gweler **Adran 5** isod). O bwys arbennig yw'r gwahaniaeth rhwng y Rheoliadau a'r Cyfarwydddebau:

- **Rheoliadau:** Rheoliadau'r UE yw'r ffurf fwyaf uniongyrchol o gyfraith yr UE. O dan **Erthygl 288 o'r TEU**, mae gan yr UE y pŵer i gyhoeddi Rheoliadau sy'n rhwymol ym mhob ffordd ac yn uniongyrchol berthnasol ym mhob Aelod-wladwriaeth. Mae Rheoliadau'r UE yn awtomatig yn dod yn gyfraith ym mhob Aelod-wladwriaeth er y gall fod yn ofynnol cael mesurau gweithredu cenedlaethol i ddelio â materion gweinyddol a gorfodaeth.
- **Cyfarwydddebau:** Mae Cyfarwydddebau'r UE yn gosod canlyniadau terfynol penodol y mae'n rhaid eu cyflawni ym mhob Aelod-wladwriaeth. Er mwyn bodloni'r nodau hyn, mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau addasu deddfau domestig, ond mae rhywfaint o ryddid i benderfynu sut i wneud hyn.

## Sefydliadau'r UE

---

Mae'r Cytuniadau yn creu **sefydliadau** sy'n rhoi personoliaeth gyfreithiol i'r UE ac yn cynnal y swyddogaethau beunyddiol sy'n gysylltiedig â rhedeg y corff uwch-genedlaethol hwn. Prif sefydliadau'r UE yn y broses polisi a deddfu yw'r **Comisiwn Ewropeaidd** (prif 'wasanaeth sifil' yr UE), **Senedd Ewrop** a'r ddau 'Gyngor' sy'n cynrychioli buddiannau Aelod-wladwriaethau: **y Cyngor Ewropeaidd** (Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau) a **Chyngor yr Undeb Ewropeaidd** (Adrannau Gweinidogol Llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau).

Yn y trafodaethau ar dynnu allan, bydd y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ewropeaidd yn chwarae'r rhan flaenllaw yn y broses hon, er bydd Senedd Ewrop hefyd yn cymryd diddordeb cryf, a gallai ddylanwadu ar ffurf y trafodaethau.

Yn ogystal â'r rhain, mae **Llys Cyfiawnder Ewrop** yn chwarae rhan ganolog wrth ddehongli cyfraith yr UE, tra bod hefyd ddiddordeb cryf o Gymru yng ngwaith **Llys Archwilwyr Ewrop** (yng nghyd-destun ariannu/cyllid yr UE), **Banc Buddsoddi Ewrop** (ar gyfer cymorth buddsoddi yng Nghymru), a'r ddau gorff 'ymgyngorol' y mae gan Gymru gynrychiolwyr arnynt, **Pwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop**, er bod y ddau gorff hyn yn gymharol wan yn y broses o wneud polisi/deddfu.

## Cynrychiolaeth y DU a Chymru

---

Mae gan y DU gynrychiolwyr ym mhob un o sefydliadau'r UE, gan gynnwys cynrychiolwyr a swyddogion o Gymru, ac un o'r cwestiynau y bydd angen mynd i'r afael ag ef fydd eu dyfodol yn dilyn tynnu allan. Bydd cwestiynau hefyd am yr effaith y gallai trafodaethau tynnu allan ei chael ar statws ASEau y DU (a Chymru) ac uwch swyddogion cyn tynnu allan - er enghraifft, a fyddai uwch swyddogion y Comisiwn yn parhau mewn rolau proffil uchel? A fyddai ASEau sy'n Gadeiryddion Pwyllgorau neu'n Is Lywyddion yn cadw'r swyddi pwysig hyn? A fyddai ASEau y DU yn parhau i gael eu henwebu fel rapporteurs neu rapporteurs cysgodol gan eu grwpiau gwleidyddol?

Mae **Atodiad 1** yn rhoi crynodeb o'r cyrff y mae gan Gymru gyfran/ddiddordeb ynddynt ar hyn o bryd y byddent yn cael eu heffeithio gan benderfyniad i adael yr UE.

## Y DU yn cael Llywyddiaeth yr UE yn ail hanner 2017

---

Yn ystod ail hanner 2017, bydd y DU yn cael **Llywyddiaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd**, sy'n cylchdroi bob chwe mis. Yn y rôl hon, byddai'r DU yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y Cyngor a'i weithgorau amrywiol, yn cynrychioli'r Cyngor mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn a Senedd Ewrop, ac yn penderfynu ar agendâu a blaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y Llywyddiaeth. Pa effaith fydd y bleidlais i adael yn ei chael ar hyn? A fydd y DU yn parhau i gael Llywyddiaeth yr UE? A fydd yn gallu cymryd rhan weithredol wrth lunio gwaith y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn? Mae'r rhain yn gwestiynau a fydd yn cael sylw dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

## Cylchoedd gwneud penderfyniadau yr UE

Mae'r UE yn gweithredu ar sail nifer o amserlenni neu 'gylchoedd', fydd yn darparu cefndir er mwyn cynnal y trafodaethau ar dynnu allan.

- **Fframwaith Ariannol Amlfwydd (MFF):** Mae'r MFF cyfredol yn rhedeg o 2014 i 2020 ac yn gosod y fframwaith cyffredinol ar gyfer cytuno cyllidebau 'blynyddol' yr UE: penawdau polisi cyllideb yr UE, gan gynnwys dyraniadau i'r gwahanol feysydd polisi a rhaglenni ariannu amrywiol yn y rhain; a therfynau uchafswm ar wariant. Mae diddordeb Cymreig cryf yn y broses hon ac mae wedi cael sylw amlwg ym musnes y Cynulliad, ac yng ngweithgareddau sefydliadau rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru. Gallai tynnu allan ddigwydd cyn diwedd y MFF presennol, sy'n codi cwestiynau am yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar y DU a chyfranogiad Cymru yn y rownd bresennol o raglenni UE.
- **Cylchoedd sefydliadol yr UE:** mae Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithredu ar gylchoedd gwleidyddol pum mlynedd. Mae'r cyfnod presennol yn cwmpasu 2014-2019. Mae Pwyllgor y Rhanbarthau ar gylch ychydig yn wahanol, gyda'i fandad pum mlynedd cyfredol yn rhedeg rhwng 2015 a 2020.
- **Cylchoedd blynyddol:** mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi **Rhaglen Waith** flynyddol (fel arfer yn yr hydref) yn nodi ei raglen polisi a deddfwriaethol ar gyfer y flwyddyn galendr ganlynol. Mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn draddodiadol yn ymgysylltu yn y broses hon, gan ddadansoddi'r blaenoriaethau a chyfleu hwn yn ôl yn uniongyrchol at waith Pwyllgor y Cynulliad ac i bolisiâu Llywodraeth Cymru. Mae rhanddeiliaid eraill yng Nghymru yn ymgymryd ag ymarferion tebyg. Mae yna hefyd Semester Ewropeaidd blynyddol ar gyfer cydlynu polisiâu economaidd, cyflogaeth a chyllidebol yr Aelod-wladwriaethau. Mae rhaglenni ariannu unigol yr UE hefyd yn aml yn dilyn cylch blynyddol o raglenni gwaith a galwadau.

## Perthnasedd i Gymru a'r DU

Yn y DU, mae'r berthynas gyda'r UE yn cael ei hystyried fel rhan o bolisi tramor ac felly mae'n ffurfiol yn fater a gadwyd i Lywodraeth y DU.

Fodd bynnag, yn ymarferol mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau rhanddeiliaid eraill yng Nghymru yn cymryd diddordeb gweithredol ac uniongyrchol mewn materion yr UE sy'n effeithio ar Gymru. Mae hyn ar y cam cyn y broses ddeddfu - pan fydd y Comisiwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wrth baratoi ar gyfer cynigion deddfwriaethol neu bolisi newydd - yn ogystal ag yn ystod y broses ddeddfwriaethol ddrafft. Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol â'r Comisiwn a Senedd Ewrop yn benodol. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd rôl anuniongyrchol yn y Cyngor, lle mae'n cymryd rhan fel rhan o ddirprwyaeth y DU ar faterion sy'n berthnasol i Gymru.

Mae **Deddf Llywodraeth Cymru (GOWA 2006)** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru wrth arfer eu swyddogaethau, i gydymffurfio â chyfraith yr UE.

Mae Gweinidogion Cymru yn gyffredinol gyfrifol am drosi (hynny yw, gweithredu) Cyfarwyddbau'r UE mewn perthynas â phynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gallai'r pŵer i wneud offerynnau statudol o'r fath gael ei gynnwys naill ai mewn Deddfau Seneddol penodol neu yn Neddfau'r Cynulliad, neu yn rhinwedd adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (ar gyfer y pynciau hynny sydd wedi'u dynodi i Weinidogion Cymru gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor).

Wrth drosi cyfarwyddbau'r UE mae Gweinidogion Cymru yn gweithio o fewn y canllawiau a nodir yn **Transposition guide: how to implement European Directives effectively** (Llywodraeth y Deyrnas Unedig), ac yn y Concordat ar Gydlynu Polisi'r UE fel y nodir yn Rhan 2 adran B o'r **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng y DU a'r Llywodraethau datganoledig (mwy am hyn isod yn isadran: *'Dylanwadu ac ymgysylltu yn y broses o wneud penderfyniadau yn y UE: Llais Cymru'*).

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau dynodedig eraill yng Nghymru (megis awdurdodau lleol), hefyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau'r UE sy'n dod o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad neu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

Heblaw am ei rôl ddeddfwriaethol, mae gan y Cynulliad rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau cydymffurfio â chyfreithiau'r UE drwy ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif am eu penderfyniadau a'u cyfrifoldebau drwy ei strwythurau busnes a phwyllgorau.

Yn olaf, mae adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn atal y Cynulliad rhag pasio deddfwriaeth sy'n anghydnaws â chyfraith yr UE. Byddai hyn yn cael ei ailddeddfu fel adran 108A(2)(d) yn y newid a gynigir gan gymal 3 o Fil Cymru 2016.

## Yr UE a chymwyseddau datganoledig

Wedi'u cynnwys o fewn y 21 maes sydd wedi'u datganoli a nodir yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd ar hyn o bryd) mae nifer o feysydd polisi lle mae gan yr UE gymhwysedd helaeth, megis amaethyddiaeth, pysgodfeydd a materion gwledig, iechyd a lles anifeiliaid, bwyd, a'r amgylchedd. Yn y meysydd hyn mae corff sefydledig o gyfraith a rheoleiddio yr UE y mae'n rhaid i Gymru gydymffurfio ag ef isoos.

Mewn meysydd eraill, megis addysg ac iechyd, mae'r cwmpas ar gyfer ymyrraeth yr UE yn fwy cyfyngedig, gydag Aelod-wladwriaethau yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am bolisi a deddfu. Gall yr UE chwarae rôl gefnogol - er enghraifft gan annog meincnodi neu gyfnewid arferion gorau, yn ogystal â chymryd camau mewn meysydd penodol lle mae diddordeb trawsffiniol neu Ewropeaidd clir. Er enghraifft, ym maes iechyd mae gan yr UE y gallu i gymryd camau i fynd i'r afael â lledaenu clefydau heintus.

Ar gyfer meysydd polisi lle mae'r DU yn cadw cymhwysedd arweiniol, mae gan y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a rhan ddeiliaid a sefydliadau eraill Cymru ddiddordeb hefyd yn yr effaith bosibl y gallai newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth yr UE ei chael yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o agweddau ar ddatblygu economaidd a pholisi cyflogaeth, polisi cystadlu (gan gynnwys caffael cyhoeddus), gwasanaethau ariannol a mewnfudo.

Yn **Adran 6** isod rydym yn ystyried yn fanylach y rhyngweithio rhwng polisi a deddfu'r UE o fewn y meysydd polisi gwahanol hyn ac yn **Adran 7** rydym yn edrych ar wahanol arian yr UE y mae Cymru wedi bod yn gymwys i'w gael drwy aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

## Dylanwad ac ymgysylltiad Cymru â gwneud penderfyniadau yn yr UE

### Cyngor: llais anuniongyrchol i Gymru

O fewn y Cyngor, mae'r DU yn cael ei chynrychioli gan Weinidogion Llywodraeth y DU a gefnogir gan wasanaeth sifil y DU: sef Cynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE (UKREP) ym Mrwsel a gwahanol adrannau Whitehall. Er bod Gweinidogion a swyddogion Cymru yn cymryd rhan fel rhan o ddirprwyaeth y DU yng nghyfarfodydd y Cyngor, llais y DU yw'r llais wrth y bwrdd. Felly, ar lefel y Llywodraeth, caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli drwy safbwynt y DU ac mae gallu Cymru i gael dylanwad (yn ffurfiol yn y Cyngor) yn amodol ar allu Gweinidogion a swyddogion Cymru i ffurfio safbwynt trafod y DU.

Mae gan Gynulliad a Llywodraeth Cymru ddiddordeb amlwg yn y ffordd y mae safbwyntiau'r DU ar bolisi a deddfwriaeth yr UE yn cael eu diffinio a'u ffurfio yn y lle cyntaf. Mae'r graddau y mae deddfwrfeydd a llywodraethau datganoledig yn cyfrannu at hyn ac yn gallu dylanwadu ar y safbwynt a'i ffurfio, yn hanfodol.

Mae'r dull hwn o drafodaethau yn y Cyngor yn cael ei bennu gan Lywodraeth y DU - ac mae'n wahanol i ddull Gwlad Belg (sydd ar lefel yr UE yn unigryw) lle mae'r Gweinidogion o'r llywodraethau

'rhanbarthol' yng Ngwlad Belg (Brwsel, Fflandrys a Walonia) yn gallu eistedd yn ffurfiol yn y Cyngor ar faterion sy'n dod o fewn eu cymhwysedd eu hunain.

## Cydlynu Polisi Ewropeaidd yn y DU

---

Mae'r trefniadau ar gyfer ymgysylltiad yr UE o fewn y DU yn cael eu diffinio yn y Concordat ar Gydlynu Polisi Ewropeaidd, sydd yn rhan o **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2013) rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i reoli cysylltiadau rhwng y gwahanol lywodraethau ar y rhyngweithio rhwng materion a gadwyd a rhai datganoledig. Dywed y Concordat y bydd Llywodraeth y DU yn cynnig cyfleoedd i ddylanwadu ar gynigion yr UE ar gam cynnar ac i lywio'r gwaith o lunio safbwynt y DU i'w gyflwyno yn y Cyngor.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd yn sefydlu **Cydgynghor Gweinidogion** (JMC) i gydlynu'n ganolog y berthynas gyffredinol rhwng y llywodraethau yn y DU, ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n pontio'r ffiniau o ran materion datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli. Mae **JMC penodol (Ewrop)**, sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Tramor (neu'r Gweinidog dros Ewrop), ac yn cyfarfod cyn pob cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd, felly tua phedair gwaith y flwyddyn. Mae'n gweithredu fel y fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a thrafod materion strategol neu drawsbynciol sy'n berthnasol i lywodraethau datganoledig.

Nid oes Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, Concordat neu gyfarfod ar y cyd Seneddol ffurfiol ar waith i arwain neu reoli'r berthynas rhwng Senedd y DU a deddfwrfeydd datganoledig ar faterion sy'n pontio'r ffiniau o ran materion datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli. Yn hytrach, mae yna nifer o strwythurau anffurfiol ar waith. Er enghraifft, mae'r Fforwm EC-UK, sy'n cwrdd ar gyfartaledd ddwywaith y flwyddyn yn dwyn ynghyd Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd (a chyfwerth) Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi **adroddiad** ym mis Mai 2016 *The Union and Devolution*. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys beirniadaeth o weithrediad y JMC. Mae'r adroddiad yn galw am ddiwygio'r JMC er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio, yn hytrach na gwleidyddiaeth gorchest ac ystumio. Galwodd Cadeirydd y Pwyllgor am ddull newydd tuag at ddatganoli yn seiliedig ar gydweithio:

---

*"UK Governments have failed to adapt to devolution. We urgently need 'a new mindset' within Government. Devolved competencies now cover so many areas of public responsibility that the delivery of government policies often requires collaboration between the UK and devolved governments. This is not yet being done effectively.*

*"Instead of the 'devolve and forget' attitude of the past, the UK Government should be engaging with the devolved administrations across the whole breadth of government policy. Not interfering, but co-operating and actively managing the cross-border and UK-wide implications of differing policy and service delivery choices. Shared and overlapping policy areas need to be handled sensibly, with each administration conscious of the interests of the others.*

---

Mae nifer o gwestiynau'n codi o hyn yng nghyd-destun ymgysylltiad y DU yn y trafodaethau tynnu allan:

- Ai'r JMC (Ewrop) fydd y fforwm a ddefnyddir ar lefel lywodraethol lle bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yn ystod y trafodaethau ar dynnu allan?
- A fydd yna fforwm seneddol i ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r DU a'r deddfwrfeydd datganoledig yn ystod y broses drafod? A fydd hyn drwy strwythurau presennol fel cyfarfodydd anffurfiol y Fforwm

EC-UK a chyfarfodydd y Llywyddion/Llefarwyr? Neu a fydd strwythurau newydd yn cael eu rhagweld?

- Sut y bydd materion penodol yn ymwneud â pholisi yn cael sylw fel rhan o'r trafodaethau? Er enghraifft, ynghylch meysydd sydd wedi'u datganoli fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd, iechyd ac addysg?
- Sut y bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gwestiynau ynghylch modelau amgen i aelodaeth o'r UE (yr ydym yn edrych arnynt yn **Adran 4** isod)?
- Pa drafodaethau fydd yn digwydd gyda'r deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gwestiynau ynghylch mecanweithiau amgen yn y DU y gellir eu rhagweld yn cymryd lle polisi a fframweithiau cyllid presennol ar lefel yr UE ar gyfer amaethyddiaeth, pysgodfeydd, a Chronfeydd Strwythurol?
- Sut y bydd y deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig yn rhan o unrhyw benderfyniadau ynghylch y DU yn parhau i gymryd rhan o bosibl yn rhaglenni eraill yr UE (megis Horizon 2020, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol)?

## Ymgysylltu gan y Cynulliad

Mae'r Cynulliad wedi ymgysylltu â materion yr UE mewn nifer o ffyrdd ers ei sefydlu yn 1999.

Mae gan y Cynulliad rôl o ran dylanwadu yn anuniongyrchol ar safbwynt Llywodraeth y DU ac o ran craffu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r UE. Mae'r Cynulliad wedi cyflawni'r rolau hyn yn flaenorol drwy gynnal ymchwiliadau pwyllgor ar gamau cynnar ym mhroses llunio polisiau'r UE, cyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi ei gynigion deddfwriaethol terfynol.

Caiff Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau i'r Gweinidog perthnasol hefyd ar unrhyw adeg yn ystod proses deddfwriaethol yr UE am effaith cynnig deddfwriaethol yr UE ar Gymru a'r paratodau sy'n digwydd o fewn adrannau llywodraeth Cymru cyn ei weithredu.

## Materion yr UE a Phwyllgorau'r Cynulliad

Ar gyfer y tri Chynulliad cyntaf (1999-2011) roedd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol penodedig a oedd yn gyfrifol am faterion yr UE. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau'r UE, y Comisiwn Ewropeaidd ac ASEau yn arbennig, yn ogystal â rhwydweithiau ehangach yr UE. Roedd hefyd yn cynnwys craffu ar Weinidogion Llywodraeth Cymru ar faterion yr UE - gan ganolbwyntio'n draddodiadol ar y Prif Weinidog - yn ogystal ag ymchwiliadau penodedig i bolisi/deddfwriaeth yr UE.

O dan y pedwerydd Cynulliad cafodd materion yr UE eu prif-ffrydio ar draws y pwyllgorau, gyda'r pwyllgorau polisi/deddfwriaeth yn arwain ar faterion yr UE oedd yn dod o fewn eu cylch gwaith. Mae enghreifftiau o weithgareddau UE mewn pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad yn cynnwys:

- **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:** yn gyfrifol am fonitro sybsidiaredd (gweler isod) yn ogystal â gwneud ymchwiliadau i **rôl Cymru mewn gwneud penderfyniadau yr UE** ac agenda diwygio UE Llywodraeth y DU.
- **Y Pwyllgor Menter a Busnes:** cynhaliodd nifer o ymchwiliadau sylweddol ar gyllid yr UE a materion cysylltiedig yn cynnwys: (i) **Cronfeydd Strwythurol yr UE** (ii) **Horizon 2020** (dau adroddiad: **Gorffennaf 2012** a **Mai 2013**); a (iii) Cyfleoedd Cyllid yr UE 2014-2020; a (iv) y **Potensial yr Economi Morol yng Nghymru**. Roedd yna hefyd ddimensiwn UE cryf i ymchwiliadau eraill, fel: **Cynorthwyo Pobl Ifanc i gael Gwaith** ac **Entrepreneuriaeth Ieuentid**. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd waith craffu UE ar waith Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

– **Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**: ymgwymerodd ag ymchwiliadau i: (i) **Polisi Amaethyddol Cyffredin** (ii) **Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**; (iii) **Cynhyrchu Organig a Labelu Cynhyrchion Organig** a (iv) **Gwaharddiad Arfaethedig Pysgodfeydd Rhwydi Drifft**. Roedd rhan fwyaf o waith arall y Pwyllgor â dimensiwn yr UE iddo o ystyried y lefel uchel o integreiddio polisi'r UE ym meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd/morol, yr amgylchedd, ynni a newid yn yr hinsawdd. Gan gymryd hyn i ystyriaeth mabwysiadodd y Pwyllgor **Ddull at Faterion yr UE** i sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i goflenni â blaenoriaeth.

Ymgwymerodd Pwyllgorau eraill y Cynulliad hefyd â darnau pwysig o waith ar bolisi /deddfwriaeth yr UE. Er enghraifft, edrychodd ymchwiliad **y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ar Sylweddau Newydd Seicoweithredol ar ddeddfwriaeth ddrafft yr UE yn y maes hwn, a chymerodd Gadeirydd y Pwyllgor ran mewn cynhadledd rhanddeiliaid Senedd Ewrop yn Llundain, gan drafod canfyddiadau'r Pwyllgor gyda'r rapporteur ar gyfer y cynigion, yr ASE o Wlad Pwyl, Michał Boni.

## Ymgysylltiad y Cynulliad ym Mrwsel

Mae Pwyllgorau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad yn ymweld â Brwsel yn rheolaidd i lywio'r gwaith hwn. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad roedd 10 o ymweliadau pwyllgor, a oedd hefyd yn cynnwys ymweliad â Phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg.

## Senedd Ewrop a'r ASEau o Gymru

Mae Senedd Ewrop, fel cyd-ddeddfwr ar y mwyafrif helaeth o ddeddfwriaeth yr UE, yn sefydliad allweddol arall y gall rhanddeiliaid Cymru geisio dylanwadu ar gynigion drafft drwyddo.

Mae'r ASEau o Gymru yn benodol â rôl bwysig i'w chwarae fel rhyngwyneb ar gyfer y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill Cymru sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â gwaith Senedd Ewrop.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, rhoddwyd pwyslais cryf ar ddull 'deddfwrfa i ddeddfwrfa', gydag ymgysylltu uniongyrchol â Senedd Ewrop, gyda ASEau Cymru yn gweithredu fel sianeli yn y broses hon. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yng ngwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Menter a Busnes, ond roedd i'w weld hefyd yng ngwaith y pwyllgorau eraill. Yn sgil hyn bu Pwyllgorau'r Cynulliad yn drafftio diwygiadau i gynigion y Comisiwn a chyflwyno'r rhain i bwyllgorau pwnc Senedd Ewrop - trwy'r 'rapporteurs' a'r ASEau o Gymru.

## Monitro sybsidiaredd

Mae'r egwyddor o sybsidiaredd yn cael ei hymgorffori yn Erthygl 5 o'r TEU, sy'n dyddio o 1992. Wrth ei gwraidd mae'r syniad y dylid gweithredu ar lefel yr UE dim ond pan na ellir cyflawni'r amcanion dymunol yn effeithiol drwy gamau a gymerwyd ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Mae gan seneddau ar draws yr UE rôl bwysig i'w chwarae wrth fonitro gweithrediad sybsidiaredd yn ymarferol.

Cyflwynodd y diwygiadau i Gytuniadau'r UE a gyflwynwyd gan Gytuniad Lisbon yn 2009 **'system rhybudd cynnar'** ar sybsidiaredd. Mae'r system hon yn galluogi Seneddau Aelod-wladwriaethau (yng nghyd-destun y DU byddai hyn yn golygu Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi) i gyflwyno **'safbwyntiau rhesymedig'** ar gynigion deddfwriaethol drafft yr UE pan fydd ganddynt bryderon bod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn torri egwyddor sybsidiaredd. Rhaid i'r safbwyntiau rhesymedig hyn gael eu cyflwyno o fewn amserlen wyth wythnos, o gyhoeddi'r cynigion deddfwriaethol drafft. Pan fydd digon o bryderon yn cael eu codi gall fod yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu ac ailystyried ei gynigion.

Mae gan y Cynulliad rôl i'w chwarae o fewn y 'system rhybudd cynnar' hon trwy gyfrwng **Erthygl 6 Protocol Rhif 2 i'r TFEU** sy'n nodi:



*"It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers."*

Mae'r Cynulliad yn cael ei ystyried yn 'senedd ranbarthol' yn hytrach na 'senedd genedlaethol' ar lefel yr UE. Yr hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw pe byddai gan y Cynulliad bryderon am sybsidiaredd, er mwyn i'r rhain gael eu hystyried yn ffurfiol fel rhan o'r 'system rhybudd cynnar' mae'n rhaid iddo sicrhau bod Tŷ'r Cyffredin a/neu Dŷ'r Arglwyddi yn cynnwys ei bryderon mewn 'barn resymedig' ffurfiol i'w chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i hyn ddigwydd o fewn yr amserlen o wyth wythnos a ragnodwyd.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor gael ei ddynodi i ystyried materion sybsidiaredd sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth ddrafft yr UE lle mae hyn yn ymwneud â phwerau deddfwriaethol y Cynulliad neu swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad cafodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y cyfrifoldeb hwn. Mae manylion pellach am waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar sybsidiaredd yn ystod y pedwerydd Cynulliad ar gael ar **dudalennau gwe archif y Pwyllgor hwn** - gan gynnwys yr 'Adroddiadau Monitro Sybsidiaredd' rheolaidd a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor gan swyddogion y Cynulliad ar fonitro deddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd rhaid aros i weld pa mor berthnasol y bydd y 'system rhybudd cynnar' hon yn ystod y broses tynnu allan, o ystyried bod deddfwriaeth newydd yr UE fel arfer yn cymryd o leiaf 12-18 mis i gael ei phasio, ac mewn llawer o achosion yn llawer hwy na hyn. Yr hyn sy'n amlwg yw ar ôl i ni adael bydd y 'system rhybudd cynnar' yn amherthnasol gan fod y Protocol yn berthnasol i 'seneddau cenedlaethol' a 'seneddau ranbarthol' Aelod-wladwriaethau yn unig. Os digwydd bod y DU yn penderfynu ymuno â'r EFTA a'r AEE (gweler **Adran 4** isod ar ddewisiadau amgen i aelodaeth o'r UE) ac o ganlyniad fod yn ddarostyngedig i deddfwriaeth berthnasol yr UE sy'n gymwys i'r AEE gyfan, mae'n debygol y bydd diddordeb mewn monitro deddfwriaeth ddrafft yr UE yn barhaus. Fodd bynnag, o ystyried yn y fath amgylchiadau (ac yn seiliedig ar brofiad Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein) na fyddai gan y DU lais ffurfiol ym mhroses deddfwriaethol yr UE, byddai unrhyw bryderon a allai fod gan Lywodraeth y DU am deddfwriaeth ddrafft yr UE y tu allan i 'system rhybudd cynnar' y Cytuniad, ac y byddai'n rhaid mynd i'r afael â hwy drwy'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer yr AEE. Mae a fyddai'r trefniadau hynny yn newid neu'n esblygu o ganlyniad i'r DU yn dod yn rhan o EFTA ac yna AEE y tu hwnt i gwmpas y papur hwn.

## Partneriaeth a rhwydweithio

Mae gan y **Cynulliad** hefyd rôl gyffredinol o ran hyrwyddo buddiannau Cymru ymhlith sefydliadau'r UE. Mae hyn yn cynnwys siarad yn uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop (yn enwedig y pedwar ASE o Gymru), y cynrychiolwyr o Gymru ar ddau gorff ymgynghorol yr UE - Pwyllgor y Rhanbarthau (yn cynnwys gwleidyddion lleol a ranbarthol) a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (arbenigwyr sy'n cynrychioli buddiannau sectoraidd) - a thrwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr UE.

Mae'r Cynulliad yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol i gefnogi'r ymgysylltu hwn i hyrwyddo ei waith ar faterion yr UE a defnyddio profiad rhannau eraill o Ewrop. Mae'r Fforwm EC-UK a grybwyllwyd eisoes yn gynharach yn yr adran hon yn un rhwydwaith o'r fath. Gweler

Gweler **Atodiad 1** am enghreifftiau o rwydweithiau y mae'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid eraill yng Nghymru yn cymryd rhan ynddynt.

Bydd gadael yr UE yn effeithio ar gyfranogiad Cymru yn y rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol hyn. Bydd yn rhaid aros i weld beth fydd hyn yn ei olygu ar lefel ymarferol, ac mae'n debygol o fod yn ddibynnol ar natur y cytundeb tynnu allan a drafodir.

## 3. Tynnu allan o'r UE

### Hysbysu

Mae'r broses lle gall Aelod-wladwriaeth dynnu allan o'r UE wedi'i nodi yn Erthygl 50 o'r TEU:

- 1. Any Member State may decide to withdraw from the Union in accordance with its own constitutional requirements.*
- 2. A Member State which decides to withdraw shall notify the European Council of its intention. In the light of the guidelines provided by the European Council, the Union shall negotiate and conclude an agreement with that State, setting out the arrangements for its withdrawal, taking account of the framework for its future relationship with the Union.*

*That agreement shall be negotiated in accordance with Article 218(3) of the Treaty on the Functioning of the European Union. It shall be concluded on behalf of the Union by the Council, acting by a qualified majority, after obtaining the consent of the European Parliament.*
- 3. The Treaties shall cease to apply to the State in question from the date of entry into force of the withdrawal agreement or, failing that, two years after the notification referred to in paragraph 2, unless the European Council, in agreement with the Member State concerned, unanimously decides to extend this period.*
- 4. For the purposes of paragraphs 2 and 3, the member of the European Council or of the Council representing the withdrawing Member State shall not participate in the discussions of the European Council or Council or in decisions concerning it. A qualified majority shall be defined in accordance with Article 238(3)(b) of the Treaty on the Functioning of the European Union.*
- 5. If a State which has withdrawn from the Union asks to rejoin, its request shall be subject to the procedure referred to in Article 49.*

Y cam cyntaf, er mwyn gweithredu'r bleidlais i adael o Refferendwm yr UE, fyddai i Lywodraeth y DU **hysbysu'r Cyngor Ewropeaidd** am ei bwriad i dynnu allan o'r UE. Byddai'r hysbysiad hwn yn golygu y byddai'r broses a nodir yn Erthygl 50 o'r TEU yn dod i rym. Nid yw Erthygl 50 **yn pennu pryd** mae angen i'r hysbysu ddigwydd, felly **ni** fyddai'n rhaid hysbysu'r Cyngor Ewropeaidd ar unwaith. Pe byddai'r Senedd yn awyddus i drafod y DU yn gadael cyn yr hysbysiad ffurfiol, neu pe byddai pwyllgor seneddol yn awyddus i gymryd tystiolaeth gan y Llywodraeth am ei benderfyniad i hysbysu, gellid oedi cyn cyflwyno hysbysiad ffurfiol.

Mewn Datganiad ar 22 Chwefror 2016 yn dilyn y Cyngor Ewropeaidd lle y cytunwyd ar y setliad newydd ar gyfer y DU yn yr UE, dywedodd y Prif Weinidog:

*if the British people vote to leave, there is only one way to bring that about, namely to trigger Article 50 of the Treaties and begin the process of exit, and the British people would rightly expect that to start straight away.*

Yn eu hadroddiad diweddar, daeth **Pwyllgor yr UE Ty'r Arglwyddi** i'r casgliad:

*There is nothing in Article 50 formally to prevent a Member State from reversing its decision to withdraw in the course of the withdrawal negotiations. The political consequences of such a change of mind would, though, be substantial.*

Ond mae tynnu allan o'r UE yn derfynol unwaith y bydd y cytundeb tynnu allan yn dod i rym. Mae Erthygl 50 yn egluro os yw Gwladwriaeth sydd wedi tynnu allan o'r UE yn ceisio ailymuno, bydd ei chais yn destun yr un gweithdrefnau ag unrhyw ymgeisydd Wladwriaeth.

## Trafod

Ar ôl i'r hysbysiad ddigwydd mae Erthygl 50 yn nodi **amserlen o ddwy flynedd i'r DU a'r Cyngor Ewropeaidd** (fydd yn cynrychioli'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill) **drafod** cytundeb tynnu allan. Gellir ymestyn y cyfnod hwn o ddwy flynedd os bydd pob parti dan sylw yn cytuno'n unfrydol.

Yn y trafodaethau, byddai'r DU yn cael ei thrin fel Gwladwriaeth nad oedd yn aelod o'r UE at ddiben Erthygl 50. **Ni** fyddai felly'n cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y trafodaethau tynnu allan yn y **Cyngor Ewropeaidd** na'r **Cyngor**.

Pan fydd y trafodaethau wedi'u cwblhau, mae angen caniatâd Senedd Ewrop ar gyfer y cytundeb tynnu allan drafft, ac wedi hynny caiff ei lofnodi ac yna ei gwblhau gan y Cyngor. Os bernir bod y cytundeb i fod yn 'gymysg' (lle mae cymwyseddau'r Aelod-wladwriaeth yn ogystal â rhai'r UE yn cael eu defnyddio), bydd yn rhaid ei gadarnhau gan yr Aelod-wladwriaethau hefyd.

Byddai'r Cyngor Ewropeaidd yn mabwysiadu drwy gonsensws, ond heb y DU, ganllawiau ar gyfer mandad trafod yr UE. O dan Erthygl 50 TFEU byddai'r Undeb yn cynnal trafodaethau yn seiliedig ar y canllawiau hyn ac yn unol ag Erthygl 218(3) y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU). O dan yr Erthygl hon, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno argymhellid i'r Cyngor, sy'n mabwysiadu Penderfyniad yn awdurdodi agor y trafodaethau ac, yn dibynnu ar bwnc y cytundeb a ragwelir, yn enwebu trafodwr yr Undeb neu bennaeth tîm trafod yr Undeb.

Dyma'r rheolau arferol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i bennu mandad trafod i'r Comisiwn drafod cytundeb rhwng yr UE a thrydydd gwlad. Mae'n debygol mai'r Comisiwn fydd y trafodwr, ond nid yw Erthygl 218(3) TFEU yn rhagnodi felly.

O dan Erthygl 218(4) gall y Cyngor enwebu pwyllgor arbennig i weithio gyda'r Comisiwn yn y trafodaethau.

Ymddengys bod sylwebyddion yn cytuno y byddai'r ASEau o'r DU yn gallu cymryd rhan mewn busnes seneddol Ewropeaidd ynghylch tynnu allan, gan gynnwys pleidlais Senedd Ewrop ar unrhyw gytundeb i dynnu allan. Oni chytunir fel arall byddai Comisiynydd y DU yn parhau â'i bortffolio; byddai barnwyr Llys yr UE o'r DU yn parhau gyda'u gwaith a byddai staff o'r DU sy'n gweithio i sefydliadau'r UE yn parhau yn eu swyddi hyd nes i dynnu allan ddod i rym.

Byddai'r DU yn dal i fod yn **Aelod-wladwriaeth** yn ystod y trafodaethau tynnu allan a byddai'n parhau i gymryd rhan hyd nes i'r cytundeb tynnu allan ddod i rym ddwy flynedd (neu fwy) ar ôl hysbysu. **Byddai cyfraith bresennol yr UE yn parhau i fod yn gymwys** yn y DU, ac y byddai'n cael ei rwymo gan **egwyddor 'cydweithrediad diffuant'**.

Yn y DU byddai'r cytundeb tynnu allan yn ôl pob tebyg yn dilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer cadarnhau cytuniad: **byddai'n cael ei osod gerbron y Senedd gyda Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU am 21 diwrnod eistedd a'i drafod cyn y gellid ei gadarnhau.**

## Cynnwys sefydliadau datganoledig yn y trafodaethau

O dan *Ddeddf yr Alban 1998*, *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a *Deddf Gogledd Iwerddon 1998* mae'n ofynnol i'r deddfwrfeydd datganoledig i beidio â deddfu neu weithredu mewn modd **sy'n groes i gyfraith yr UE**. Mae'r Deddfau hyn hefyd yn darparu pwerau cydredol (a rennir â llywodraeth y DU) i **arsylwi, trosi a gweithredu cyfraith yr UE**.

Mae Adran 53 o *Ddeddf yr Alban 1998* yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Weinidogion yr Alban y cyfrifoldeb i arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau UE mewn meysydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig Senedd yr Alban. Pan fydd Cyfarwydddeb yn cwmpasu maes polisi datganoledig mae Llywodraeth yr Alban yn ei drosi i mewn i gyfraith yr Alban. Byddai cymal 18 o'r Bil Cymru 2016 newydd yn rhoi pŵer tebyg i Weinidogion Cymru.

### Caniatâd deddfwrfeydd datganoledig

Dywedodd adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar dynnu allan o'r UE:

*We asked Sir David whether he thought the Scottish Parliament would have to give its consent to measures extinguishing the application of EU law in Scotland. He noted that such measures would entail amendment of section 29 of the Scotland Act 1998, which binds the Scottish Parliament to act in a manner compatible with EU law, and he therefore believed that the Scottish Parliament's consent would be required. He could envisage certain political advantages being drawn from not giving consent.*

*We note that the European Communities Act is also entrenched in the devolution settlements of Wales and Northern Ireland. Though we have taken no evidence on this specific point, **we have no reason to believe that the requirement for legislative consent for its repeal would not apply to all the devolved nations [puyslais y Gwasanaeth Ymchwil].***

Er y gall Senedd San Steffan ddiddymu'r *Ddeddf Hawliau Dynol 1998* neu *Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd (ECA) 1972*, ni fyddai hyn yn dod â diwedd ar ymgorffori domestig o'r ECHR neu gyfraith yr UE mewn gwledydd datganoledig. Byddai'n dal i fod yn angenrheidiol i newid y rhannau perthnasol o deddfwriaeth datganoli. Ym marn rhai **sylywebyddion cyfreithiol**, er y gall Senedd y DU ddiwygio'r Deddfau datganoli, mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd fel arfer yn deddfu ar fater datganoledig heb ganiatâd y deddfwrfa ddatganoledig. Mae hyn yn gofyn am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Gonfensiwn Sewel sydd bellach wedi'i ymgorffori mewn statud yn yr Alban yn *Neddf yr Alban 2016*. Mae Cymal 2 o **Fil Cymru 2016** yn cynnwys darpariaeth debyg.

Fodd bynnag, pan edrychodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad (CLAC) **ar y cynigion** daeth i'r casgliad:

*...clywon ni na fyddai gosod y weithdrefn cydsyniad deddfwriaethol ar sail statudol yn cael unrhyw effaith gyfreithiol, ond byddai'n rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol o'r realiti gwleidyddol. Gan ddarllen cymalau drafft yr Alban, dywedwyd wrthym y byddai unrhyw anghydfod ynghylch cydsyniad deddfwriaethol yn dal i orfod cael ei drin yn wleidyddol.*

Ar ben hynny, yn ystod ei dystiolaeth, gofynnodd yr Athro Thomas Glyn Watkin y cwestiynau: pwy sy'n penderfynu beth a olygir wrth datganoledig a beth a olygir gan 'fel arfer'? A allai camau a gymerwyd gan Senedd y DU i weithredu pleidlais ledled y DU ar dynnu allan gael eu hystyried yn amgylchiadau digon anarferol i anwybyddu'r cymal hwnnw?

### Cymryd rhan yn y broses drafod

Mynegodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y pedwerydd Cynulliad ei bryderon nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r Cynulliad yn ystod y trafodaethau ynglŷn â diwygio'r UE. Cododd Senedd yr Alban bryderon tebyg, sy'n awgrymu y bydd hwn yn faes pwysig i'w drafod ymhellach pe byddai'r refferendwm yn arwain at dynnu allan.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd yn ei **Adroddiad Etifeddiaeth** y dylid sefydlu pwyllgor penodol i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r broses o adael yr UE.

---

*Roeddem yn [...] siomedig, felly, gyda'r diffyg ymgynghori ac ymgysylltu a gafwyd gyda'r deddfwrfeydd datganoledig yn ystod y trafodaethau ar yr agenda ddiwygio. Byddai trafodaeth strwythuredig ar y fasged sofraniaeth, er enghraifft, wedi dod â buddion clir. Y fasged sofraniaeth yw'r term a roddir i'r alwad am bwerau cryfach i seneddau cenedlaethol mewn perthynas â'r broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Mae gan ddeddfwrfeydd datganoledig rôl bwysig o ran craffu ar waith yr UE. Mae'n anffodus nad yw llais y deddfwrfeydd datganoledig wedi cael ei ystyried yn y broses o ddangos yr hyn a elwir yn 'gerdyn coch'. Mae'r canlyniad y cytunwyd arno yn setliad newydd y DU yn codi'r posibilrwydd y bydd Senedd y DU, gan weithredu ar gymwyseddau Lloegr yn unig (er enghraifft, ym meysydd amaethyddiaeth neu'r amgylchedd), yn galw am fetu ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd, a hynny heb orfod cymryd i ystyriaeth, neu adlewyrchu, diddordebau neu bryderon deddfwrfeydd datganoledig y DU ynghylch materion o'r fath.*

*Mae hwn yn fater y gellir efallai mynd i'r afael ag ef drwy drafodaethau mewnol yn y DU ... ..*

---

Ym mis Mai 2016 cymerodd Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin dystiolaeth gan Weinidogion y DU a'r Alban ac ar Refferendwm yr UE a'i effaith bosibl ar yr Alban. Dywedodd Gweinidog yr Alban dros Ddatblygu Rhyngwladol ac Ewrop, Alistair Allan MSP wrth y Pwyllgor na chafodd Llywodraeth yr Alban lawer o ymgysylltiad â Llywodraeth y DU ynghylch y broses ddiwygio a dywedodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban nad oedd cynllun wrth gefn i'r DU adael yr UE. Gwnaed **datganiad tebyg gan y Prif Weinidog** yn gynnar yn 2016, er y cyfaddefodd fod y Trysorlys yn cymryd rhan mewn cynllunio wrth gefn ar gyfer y canlyniadau sefydlogrwydd ariannol brys pe byddai'r wlad yn pleidleisio i adael.

Ar y cam hwn, dim ond gofyn cwestiynau y gallwn ei wneud am sut bydd y broses tynnu allan yn cael ei rhoi ar waith:

- Pa ran fydd gan Lywodraeth Cymru (a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU) yn y trafodaethau ffurfiol?
- Sut y rhoddir sylw i fuddiannau Cymru a sut y byddant yn cael eu hadlewyrchu yn sefyllfa trafod Llywodraeth y DU?
- Pa ran fydd gan y Cynulliad wrth fonitro a chraffu ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu yn y broses hon a'r modd y mae Llywodraeth y DU yn cynrychioli buddiannau a phryderon Cymru?
- Sut y bydd y Cynulliad yn trefnu ei waith a gwaith ei bwyllgorau er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol gan Aelodau'r Cynulliad yn y broses hon?

Mewn perthynas â'r Alban, roedd safbwynt yr Athro Keating yn eithaf cadarnhaol:

---

*Even if Scotland is obliged to leave the EU along with England, however, matters will change. The Scotland Act of 1998 does not specify the powers of the Scottish Parliament, only those reserved to Westminster. Everything else goes either to Scotland or, in many cases, to Europe. If we leave the EU, many of the European powers would revert, not to Westminster but to Holyrood. This includes large swathes of policy in relation to agriculture, fisheries, environment, justice and home affairs, higher education and social policy. Scotland could then choose, in these fields, whether to align its policies more with London or with Brussels, so retaining a connection with Europe if not a role in European policy making.*

---

Yng Nghymru, rydym ar dir anghyfarwydd gan y bydd y setliad datganoli ei hun yn newid yn ystod y broses drafod ac unwaith y bydd wedi ei chwblhau. Hefyd, efallai y bydd y ffaith y byddai awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr yn aros yn ei lle â gwahanol oblygiadau ac yn arwain at ganlyniadau gwahanol i Gymru nag i'r Alban.

## 4. Modelau amgen i aelodaeth o'r UE

Mae yna nifer o fodelau amgen y gall y DU eu hystyried ar gyfer ei pherthynas yn y dyfodol â'r UE. Mae tri o'r rhain (y model AEE Norwy, cytuniadau dwyochrog a drafodwyd a model Sefydliad Masnach y Byd yn unig) yn cael eu trafod yn helaeth yng nghyhoeddiad Llywodraeth y DU **Alternatives to membership: possible models for the UK outside the EU**.

### Model Norwy

Mae Norwy yn yr **Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)**, ond nid yn yr UE. Mae'r AEE yn farchnad fewnol sy'n darparu ar gyfer symud rhydd o ran personau, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf, ac yn cynnwys y 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE yn ogystal â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Dyma'r model y tu allan i'r UE sydd wedi'i integreiddio fwyaf gyda'r Farchnad Sengl. Mae'r tair gwlad hyn yn cyfrannu at gyllideb yr UE, ac yn cymryd rhan mewn peth gweithgaredd nad yw'n economaidd megis gwrthderfysgaeth. Er bod rhaid iddynt ddilyn y rhan fwyaf o reolau'r Farchnad Sengl, nid oes ganddynt unrhyw bleidlais neu fetu yn y modd y mae'r rheolau hyn yn cael eu gwneud.

Nid yw Aelodau o'r AEE nad ydynt yn yr UE yn gwneud cyfraniadau i arian CAP nac yn derbyn yr arian hwnnw. Er nad ydynt yn gyffredinol yn gymwys ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae Norwy a Liechtenstein yn gymwys ar gyfer rhai **rhaglenni trawsffiniol a rhyngwladol**. Mae Cytundeb yr AEE yn sicrhau cyfranogiad Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy mewn **nifer o raglenni eraill yr UE**, gan gynnwys Horizon 2020 (ymchwil ac arloesi) ac Erasmus+ (addysg a hyfforddiant). Yn ogystal, fel rhan o Gytundeb yr AEE, mae Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy yn darparu cyllid mewn 16 o Aelod-wladwriaethau i gryfhau cysylltiadau dwyochrog a lleihau gwahaniaethau economaidd a chymdeithasol yn yr AEE.

Nid yw'n sicr y byddai'r DU yn gallu ymuno â'r AEE. Mae'r academydd Michael Keating **yn dadlau**:

---

*It was designed for small states, which would not affect the overall European balance of power and, in the case of Norway, whose government really wanted to join the EU but lost two referendums*

---

### Cytuniadau dwyochrog wedi'u trafod

Mae nifer o wledydd wedi trafod gwahanol lefelau o fynediad i Farchnad Sengl yr UE, sy'n dod â nifer penodol o rwymedigaethau aelodaeth o'r UE gyda hwy.

Cytundeb y Swistir â'r UE sy'n dod agosaf at ddyblygu telerau aelodaeth o'r UE, a hynny o ran cyfleoedd a rhwymedigaethau. Yn gyfnewid am fynediad rhannol at y Farchnad Sengl, rhaid i'r Swistir dderbyn symudiad rhydd pobl, cyfrannu at wariant yr UE a chydymffurfio â'r rhan fwyaf o reolau'r Farchnad Sengl. Yn yr un modd â gwledydd yr AEE nad ydynt yn aelodau o'r UE, nid oes gan y Swistir ddim pleidlais na fetu ar sut y mae rheolau'r Farchnad Sengl yn cael eu gwneud.

Nid yw'r Swistir yn cymryd rhan yn PAC, mae'n ymwneud yn rhannol â Horizon 2020, ac er nad yw'n gymwys yn gyffredinol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae'n gymwys ar gyfer rhai rhaglenni trawsffiniol a rhyngwladol.

Yn 2014 cefnogodd pleidleiswyr y Swistir o drwch blewyn gynnis refferendwm i ailgyflwyno cwotâu llym ar gyfer mewnfudo o wledydd yr UE. Yn dilyn y bleidlais hon cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd y byddai'n gohirio trafodaethau ar fynediad y Swistir i Horizon 2020 a **Erasmus+** o ganlyniad, gan nodi bod y bleidlais honno yn mynd yn erbyn yr egwyddor o symud rhydd gan bersonau rhwng yr UE a'r Swistir. Mae'r UE a'r Swistir wedi gohirio eu trafodaethau tan ar ôl refferendwm y DU.

Ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein, mae'r Swistir yng **Nghymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA)**: sefydliad rhynglywodraethol a sefydlwyd ar gyfer hyrwyddo masnach rydd ac integreiddio economaidd er budd ei bedair Aelod-wladwriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Swistir yn y Cytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), sy'n galluogi tri o'r pedwar o Aelod-wladwriaethau EFTA (Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy: gweler uchod) i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl.

Ar ben arall y sbectrwm hwn, mae Canada yn ddiweddar wedi gorffen trafod Cytundeb Masnach Rydd â'r Undeb Ewropeaidd, a gymerodd saith mlynedd ac nid yw eto mewn grym. Mae model Canada yn golygu llai o fynediad at y Farchnad Sengl nac sydd gan y Swistir, ac yn unol â hynny yn golygu llai o rwymedigaethau. Gyda Cytundeb Masnach Rydd, mae gwledydd yn cytuno ar fynediad i farchnadoedd, lefelau tariff a chwotâu ar gyfer masnach rhyngddynt a'r UE. Mae allforwyr sy'n dymuno gwerthu i'r Farchnad Sengl yn cael eu gorfodi yn gyffredinol i gydymffurfio â'i rheolau. Unwaith eto, nid oes gan bartïon i Gytundeb Masnach Rydd bleidlais neu feto ar sut mae'r rheolau hyn yn cael eu gwneud. Nid yw Canada yn cyfrannu at gyllideb yr UE, ac nid yw'n derbyn cyllid uniongyrchol o'i ffrydiau ariannu. Nid oes symud rhydd o ran pobl rhwng Canada a'r UE, er bod trefniadau ar gyfer symud dros dro penodol o ran rhai gweithwyr proffesiynol.

### Model Sefydliad Masnach y Byd yn unig

Mae'r DU, ynghyd â phob Aelod-wladwriaeth arall yr UE, hefyd yn aelod o **Sefydliad Masnach y Byd (WTO)**. Yn absenoldeb trefniadau amgen, byddai'r DU yn disgyn yn ôl ar ei haelodaeth o WTO i ddarparu telerau ei pherthynas â'r UE. Dyma'r unig fodel ffurfiol o berthynas yn y dyfodol sydd ar gael ar hyn o bryd i'r DU na fyddai'n gofyn am unrhyw drafodaethau pellach.

O dan y model hwn, byddai mynediad y DU i'r Farchnad Sengl yn destun yr un tariffau â phob un o'r 161 aelod arall o WTO nad ydynt wedi trafod eu trefniadau eu hunain. Ynghyd â mynediad cyfyngedig i'r Farchnad Sengl, mae'r model hwn yn cynnwys ychydig yn unig o rwymedigaethau i'r UE. Nid yw'n ofynnol i wledydd WTO gyfrannu at gyllideb yr UE, neu dderbyn symud rhydd o ran pobl. Eto, mae busnesau sy'n masnachu dan reolau WTO yn unig sy'n dymuno gwerthu i'r Farchnad Sengl yn cael eu gorfodi yn gyffredinol i gydymffurfio â'i rheolau. Unwaith eto, nid oes gan aelodau WTO bleidlais neu feto ar sut mae'r rheolau hyn yn cael eu gwneud. Nid oes gan wledydd WTO o reidwydd fynediad uniongyrchol at ffrydiau ariannu yr UE.

### Modelau y tu allan i'r UE ar gyfer cysylltiadau masnach ryngwladol

Mae rhai sylwebyddion wedi tynnu sylw at berthnasoedd masnach rhyngwladol eraill y mae'r DU naill ai'n rhan ohonynt neu y gallai ymuno â hwy wrth drafod y dyfodol ar gyfer y DU y tu allan i'r UE. Yn absenoldeb perthynas ffurfiol newydd gyda'r UE, gallai'r rhain efallai liniaru rhai o effeithiau colli mynediad at y Farchnad Sengl. Ni fyddai'r un o'r perthnasoedd hyn yn golygu cymryd rhan mewn unrhyw ffrydiau ariannu'r UE.

### Bloc y Gymanwlad

Mae'r Gymanwlad yn ffurfio grŵp amrywiol o 53 o wledydd, y mae 3 ohonynt yn Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae eiriolwyr **ardal masnach rydd y Gymanwlad** yn tueddu i ddadlau y byddai'r cysylltiadau hanesyddol ac ieithyddol sydd gan y DU gydag aelodau'r Gymanwlad yn ein galluogi i fanteisio ar dwf cynyddol yn economïau'r Gymanwlad sy'n datblygu. Fodd bynnag, mae eraill yn dadlau bod gan y DU lawer mwy yn gyffredin yn economaidd ag economïau yr UE, s'n farchnad fwy naturiol ar gyfer y mathau o nwyddau a gwasanaethau y mae'r DU yn eu hallforio.



## Yr Eingsffer

---

Mae cefnogwyr yr **Eingsffer** yn dadlau mai cynghreiriaid a phartneriaid masnachu naturiol y DU yw'r gwledydd hynny - megis Awstralia, Seland Newydd, Canada ac UDA - sydd â'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ac â thraddodiad gwleidyddol tebyg i un y DU. Fel y cyfryw, mae rhai yn teimlo y byddai'r DU yn well eu byd yn canolbwyntio ar fynd ar drywydd perthynas ddyfnach â gwledydd fel y rhain, yn hytrach na'r UE.

## 5. Goblygiadau cyfreithiol pleidleisio i Adael

### Goblygiadau ar gyfer deddfwriaeth sydd mewn grym

Ni fydd pleidlais i adael yr UE yn cael effaith gyfreithiol ar gyfraith y DU ar unwaith. Tan i'r DU dynnu allan o'r UE, bydd y DU yn parhau i fod yn Aelod-wladwriaeth a bydd ei holl rwymedigaethau dan Gytuniadau'r UE a deddfwriaeth yr UE yn parhau mewn grym.

Byddai tynnu allan yn digwydd pan fyddai cytundeb tynnu allan yn dod i rym. Os nad oes cytundeb yn cael ei wneud o fewn dwy flynedd o hysbysiad y DU o dynnu allan, ac nad yw'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno'n unfrydol i ymestyn y cyfnod hwn, byddai tynnu allan yn digwydd yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod dwy flynedd hwnnw.

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yr UE ar ffurf Cyfarwyddebau (y mae angen eu gweithredu gan Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys deddfwrfeydd datganoledig) a Rheoliadau (sy'n uniongyrchol berthnasol, ond efallai y bydd angen deddfwriaeth gorfodaeth ar ran Aelod-wladwriaethau). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn aml yn cynnig y fframwaith ar gyfer llunio deddfwriaeth ddomestig. O fewn pwerau datganoledig y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas â materion amgylcheddol ac amaethyddol.

Ni fyddai'n hanfodol disodli holl ddeddfwriaeth y DU sy'n gweithredu cyfraith yr UE (yn nodweddiadol, Cyfarwyddebau'r UE) erbyn y pwynt o dynnu allan. Fodd bynnag, byddai'n hynod ddymunol i bob deddfwriaeth o'r fath i gael ei hadolygu cyn tynnu allan, i weld a fyddai'n parhau i fod yn ymarferol yn gyfreithiol ar ôl tynnu allan neu a fyddai angen diwygio neu amnewid. Mae hyn ar wahân i'r cwestiwn a fyddai'r DU neu unrhyw Lywodraeth ddatganoledig yn **dymuno** diwygio neu ddisodli'r ddeddfwriaeth dan sylw, unwaith nad oedd angen iddi gydymffurfio â chyfraith yr UE mwyach. Mae rhagor o wybodaeth ar y mater hwn yn cael ei rhoi isod.

Hefyd, mae rhai cyfreithiau'r UE (yn nodweddiadol, Rheoliadau'r UE) yn ffurfio rhan o gyfraith y DU, heb yr angen am ddeddfwriaeth y DU i'w trosi. Byddai'r cyfreithiau hyn yn peidio â bod yn effeithiol yn y DU ar adeg tynnu allan a dylid asesu goblygiadau hynny cyn tynnu allan.

Byddai tynnu allan o'r UE yn golygu y byddai'n anochel bod Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn cael ei diddymu. Mae cyfran fawr iawn o ddeddfwriaeth y DU (gan gynnwys deddfwriaeth a wneir gan ddeddfwrfeydd datganoledig) yn cael ei gwneud o dan bwerau a gynhwysir yn adran 2 (2) o'r Ddeddf honno. Byddai diddymu'r Ddeddf, yn absenoldeb darpariaethau trosiannol addas, yn arwain at yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir drwy ddibynnu ar y pŵer hwnnw yn dod i ben yn awtomatig. Byddai hyn yn gadael bwch mawr yng nghyfraith amaethyddol ac amgylcheddol Cymru, yn arbennig, os nad oedd unrhyw ddarpariaethau trosiannol wedi cael eu rhoi yn eu lle.

Mae'r gwaith o adolygu ac o bosibl disodli holl ddeddfau y DU sy'n rhoi effaith i gyfraith yr UE a/neu yn cyfeirio at ddeddfwriaeth yr UE mor fawr ei bod yn debygol y bydd y llywodraeth sy'n gyfrifol yn ceisio deddfu ar gyfer darpariaethau trosiannol i gadw pob un neu lawer o'r cyfreithiau hynny mewn grym yn ystod y cyfnod ar ôl tynnu allan (er y gallai hyn ddibynnu ar hyd y cyfnod trafod tynnu allan). Byddai hefyd yn gynamserol i ddiddymu/newid y deddfau hyn hyd nes ei bod yn glir a fydd y DU yn cael ei rhwymo yn y dyfodol gan unrhyw un o'r rhwymedigaethau UE y mae'n eu gweithredu (fel y byddai o dan fodel yr AEE neu EFTA neu o dan gytundeb cydgysylltiol gyda'r UE).

Nid yw'n hollol glir ar hyn o bryd a fyddai'r pŵer i wneud darpariaethau trosiannol o'r fath, mewn meysydd polisi datganoledig, yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad neu â Llywodraeth y DU a'r Senedd, oherwydd y ffaith nad yw cysylltiadau gyda'r UE yn bwnc datganoledig, ond mae pynciau unigol megis amaethyddiaeth, a gwarchod yr amgylchedd, wedi'u datganoli.

Mae hefyd yn aneglur sut y byddai'r llysoedd yn dehongli unrhyw ddeddfwriaeth weithredu ar ôl tynnu allan. Tra bod y DU yn aelod o'r UE, mae'n rhaid i deddfwriaeth weithredu ddomestig gael ei dehongli er mwyn rhoi effaith i ddiben Cyfarwydddeb sylfaenol yr UE (ac yn wir y Cytuniadau). Unwaith nad oedd y DU bellach yn Aelod-wladwriaeth, ni fyddai'r rheol ddeongliadol honno yn gymwys yn awtomatig. Serch hynny, gallai Senedd y DU deddfu i fynnu bod y llysoedd yn parhau i weithredu'r rheol ddeongliadol am y tro. Nid yw'n glir a allai'r Cynulliad wneud yr un peth mewn perthynas â phynciau datganoledig.

Dim ond un agwedd ar yr effaith uniongyrchol ar ein llysoedd yw i ba raddau y byddai llysoedd y DU yn parhau i gymhwyso'r rheol ddeongliadol honno. Mae penderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeidd yn rhwymol ar lysoedd domestig yn eu dehongliad o gyfraith yr UE. Yn dilyn tynnu allan, byddai gan benderfyniadau o'r fath - ar y mwyaf - awdurdod darbwyllo, a gallai llysoedd y DU wynebu dadleuon newydd am ddehongli deddfwriaeth a ddeilliodd yn wreiddiol o'r UE.

## Effaith pleidlais i adael ar Fil Cymru 2016

Gan y bydd goblygiadau tynnu allan yn ansicr am beth amser, a bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru yn y cyfamser, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar Fil Cymru 2016.

Ni fwriedir unrhyw ddiwygiad i adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru (DLIC) 2006, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy gyfeirio at ofyniad i gydymffurfio â chyfraith yr UE. Byddai angen diwygio DLIC 2006 (fel y'i diwygiwyd) yn y dyfodol fel bod y cyfyngiad hwn yn cael ei dynnu ar adeg tynnu allan.

Mae'r darpariaethau eraill ym Mil Cymru 2016 yn cynnwys cyfeiriadau at gyfraith yr UE, megis y pwerau a gedwir yn ymwneud â materion tramor a'r diffiniad o 'fwyd'. Felly, bydd angen adolygiad mwy cyffredinol o gyfeiriadau Ewropeidd mewn deddfwriaeth ddatganoli.

Oherwydd y byddai newidiadau o'r fath yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, byddai'n ofynnol ar y Cynulliad i basio cynnig cydsyniad deddfwriaethol, o dan y confensiwn cydsyniad deddfwriaethol cyfredol sydd wedi'i ymgorffori yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli. Fodd bynnag, nid yw'r fersiwn statudol o'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol a gynhwysir ym Mil Cymru 2016 yn cynnwys y rhan hon o'r confensiwn. Yn lle hynny, byddai angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad dim ond lle mae Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu o ran materion datganoledig'. Os bydd y confensiwn anstatudol presennol yn parhau i gael ei barchu, fodd bynnag - fel y mae Llywodraeth yr Alban wedi cadarnhau y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno fydd yn digwydd yn achos yr Alban - **bydd** angen cydsyniad y Cynulliad.

Byddai dychwelyd i'r DU y pwerau ar adeg tynnu allan yn anochel yn cael effaith sylweddol ar y setliad datganoli. Byddai llawer o'r pwerau hynny eisoes wedi'u cynnwys gan bwerau a gadwyd mewn perthynas â Materion Ariannol ac Economaidd a Masnach a Diwydiant. Fodd bynnag, mae Bil Cymru 2016 yn cynnwys ychydig iawn o faterion a gedwir sy'n berthnasol i'r amgylchedd, amaethyddiaeth a physgodfeydd. Os bydd pwerau sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd ar lefel yr UE, felly, yn cael eu dychwelyd i Gymru, byddai goblygiadau sylweddol i Lywodraeth Cymru o ran datblygu polisi. Byddai trafodaethau pwysig hefyd yn ofynnol mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb gyfatebol, yn ogystal â hynny ar gyfer datblygu rhanbarthol.

## 6. Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar feysydd polisi datganoledig yng Nghymru

Mae'r adran hon yn rhoi golwg mwy manwl ar sut y gallai'r DU yn gadael yr UE effeithio ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Amaethyddiaeth a materion gwledig (gan gynnwys lles anifeiliaid)

Caiff y polisiâu sy'n effeithio ar ffermio yng Nghymru a'r gadwyn cyflenwi bwyd eu pennu i raddau helaeth gan yr UE drwy'r **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**, deddfwriaeth diogelwch bwyd a lles anifeiliaid a hefyd yn anuniongyrchol gan reolau **Sefydliad Masnach y Byd (WTO)** (gweler y **Cytundeb Amaethyddiaeth**).

Y PAC yw mecanwaith yr UE ar gyfer darparu cymorth uniongyrchol i ffermwyr, ar gyfer diogelu cefn gwlad ac i gefnogi datblygiad ardaloedd gwledig. Mae'r PAC yn rhedeg am gyfnod o saith mlynedd. O dan rownd bresennol PAC, 2014-2020, bydd Cymru'n derbyn tua £250 miliwn o gyllid y flwyddyn mewn taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn ogystal â €655 miliwn ar gyfer ei rhaglen datblygu gwledig 2014-2020. O dan y PAC, mae pob Aelod-wladwriaeth yn derbyn dyraniad blynyddol er mwyn rhoi taliadau uniongyrchol i ffermwyr. Yn y DU, caiff y dyraniad hwn wedyn ei rannu rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Cytunwyd ar y gyfran bresennol o ddyraniad y DU a roddir i bob gweinyddiaeth mewn trafodaethau cyn y rownd hon o'r polisi.

Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am weithredu'r PAC yng Nghymru, ac mae'n ofynnol iddi gydymffurfio â gwahanol Reoliadau'r UE sy'n gosod fframwaith cyfreithiol y polisi. Yn achos ffermwyr sy'n gymwys ar gyfer y PAC, mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r taliadau uniongyrchol a gânt.

Mae ail biler y PAC - datblygu gwledig - yn cefnogi ffermwyr a'r economi wledig ehangach, sydd yn 2014-2020 yn canolbwyntio ar gystadleurwydd busnesau fferm, arallgyfeirio gweithgareddau, hyrwyddo prosiectau amgylcheddol o ansawdd uchel, ac annog datblygu cymunedol ehangach mewn ardaloedd gwledig. Yn yr un modd â thaliadau uniongyrchol, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno cynlluniau datblygu gwledig a ariennir gan y PAC yng Nghymru.

Mae'r UE yn rhedeg **nifer o gynlluniau** â'r nod o hyrwyddo a chefnogi cynhyrchion amaethyddol o ansawdd uchel, fel rhan o'r gweithgareddau marchnata i hyrwyddo cynhyrchion yr UE, gan gynnwys drwy fasnach i wledydd nad ydynt yn yr UE. Mae hyn yn cynnwys y cynllun Dangosyddion Daearyddol Gwarchodedig. Mae'r Dangosyddion Daearyddol Gwarchodedig hyn yn cynnwys nifer o gynhyrchion o Gymru, gan gynnwys cig oen Cymreig, cig eidion Cymreig, Halen Môn a thatws cynnar Sir Benfro.

Mae'r UE hefyd yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer marchnata, labelu a rheoleiddio bwydydd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys y safonau ar ffermio organig, plaladdwyr ac organebau a addaswyd yn enetig. Mae'r deddfwriaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac mae bron yn gyfan gwbl yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Mae'r UE yn gosod y fframwaith polisi a deddfwriaethol trosfwaol ar iechyd anifeiliaid, hylendid a lles. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau'r UE yn ymdrin â meysydd fel rheoli clefydau, lles anifeiliaid adeg eu lladd ac wrth eu cludo, rheoleiddio anifeiliaid a ddefnyddir mewn arbrofion gwyddonol ac allforio a mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid blynyddol gan yr UE ar gyfer ei **Strategaeth ar gyfer Dileu TB Gwartheg**.

Yn ogystal â rheoleiddio masnach ar draws y farchnad sengl, ar hyn o bryd yr UE sy'n trafod cytuniadau masnach allanol ar gynhyrchion amaethyddol ar ran yr holl Aelod-wladwriaethau. Ar hyn o bryd mae gan yr UE gytundebau masnach ar waith gyda nifer o wledydd allanol, gan gynnwys De

Affrica, Mecsico, yr Aifft, Moroco a bloc o wledydd Canolbarth America. Ar hyn o bryd, mae cynhyrchion ffermwr Cymru sy'n cael eu hallforio i'r gwledydd hyn yn elwa ar y gostyngiadau tariff a'r cwotâu mewnforio y mae'r UE wedi cytuno iddynt. Mae **map llawn o'r gwledydd** y mae gan yr UE gytundebau masnach ffafriol â nhw ar hyn o bryd ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd.

O dan bob un o'r sefyllfaoedd a ystyriwyd pe bai'r DU yn tynnu allan, ni fyddai'n parhau i fod yn rhan o'r PAC na'r cytuniadau masnach rhyngwladol a sicrhawyd gan yr UE. Mae hyn yn golygu na fyddai'r ddeddfwriaeth, y polisi a'r cyllid sy'n effeithio ar y meysydd uchod yn cael eu pennu bellach ar lefel yr UE.

Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau a fyddai'n berthnasol i Gymru o ystyried pwysigrwydd y PAC i'r maes datganoledig hwn:

- Sut fyddai'r DU yn tynnu allan o'r PAC? A fyddai'n cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o amser neu'n dod i ben yn syth ar ôl i'r DU adael?
- Pa fframwaith a fyddai'n cael ei roi ar waith o fewn y DU i gymryd lle PAC? Sut y byddai hyn yn cael ei sefydlu? Lefel y DU? Lefel ddatganoledig?
- Pa gytundeb ariannu fyddai'n cael ei roi ar waith i gymryd lle'r taliadau uniongyrchol presennol a'r cyllid datblygu gwledig o Bileri 1 a 2 y CAP?
- Beth fyddai'n digwydd i gynnyrch amaethyddol gyda dynodiadau arbennig fel labeli Cig Eidion Cymru a Chig Oen Cymru?
- Pa drefniadau y gellid eu rhagweld ar gyfer masnachu cynnyrch amaethyddol Cymru o fewn yr UE?
- Pa drefniadau a fyddai'n cael ei sefydlu o fewn y DU a Chymru ar gyfer disodli'r corff presennol o ddeddfwriaeth yr UE o fewn y sectorau amaethyddiaeth a bwyd, gan gynnwys rheolau ar iechyd anifeiliaid, lles, hylendid, monitro/tagio anifeiliaid, gwaredu carcassau ac ati?

## Y Môr a Physgodfeydd

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a gorfodi pysgodfeydd môr yng Nghymru, yn cynnwys gweithredu'r **Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**. Mae'r polisi hwn yn pennu'r rheolau sy'n llywodraethu ac yn rheoli pysgota stoc benodol ym moroedd Ewrop. Mae hyn yn cynnwys gosod cwotâu ar gyfer faint o bysgod y gall gwahanol fflydoedd pysgota eu dal; gosod rhai rheolau ar y mathau o gyfarpar a ddefnyddir; pennu strwythurau i Aelod-wladwriaethau reoli eu pysgodfeydd ar sail ranbarthol; rheoli pa fflydoedd sy'n cael mynd i wahanol ddyfroedd a rheoliadau i sicrhau bod pysgodfeydd yn gweithredu ar lefelau cynaliadwy.

Mae nifer o bolisiau morol yr UE ar waith y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys **Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol** a'r **Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol**. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gydweithio i wella statws amgylcheddol moroedd. Mae'r Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddatblygu cynlluniau gofodol morol erbyn 2021 yn unol â rhai safonau gofynnol a chydweithredu yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau hyn mewn ardaloedd trawsffiniol. Mae cynlluniau, deddfwriaeth a pholisi morol yng Nghymru yn cael eu datblygu i gydymffurfio â'r Cyfarwyddebau hyn.

**Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop** yw'r gronfa sy'n helpu i gyflawni'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a pholisiau morol eraill yn yr UE. Mae'n gweithredu dros gyfnod o saith mlynedd (2014-2020). Dyrannwyd €19.7 miliwn i Gymru o gyfanswm dyraniad y DU o €243 miliwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalennau Llywodraeth Cymru ynghylch **y Môr a Physgodfeydd**.

Fel yn achos y PAC, mae polisi pysgodfeydd yn faes lle na fyddai'r DU bellach yn rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop pe bai'n tynnu allan o'r UE. Fodd bynnag, byddai'n parhau i fod yn ffactor pwysig wrth gytuno ar drefniadau.

Yn hynny o beth, byddai cwestiynau tebyg yn codi ar gyfer y trafodaethau ar dynnu allan a pharatoi ar gyfer y cyfnod ôl-UE. O fewn y sector pysgodfeydd yn benodol byddai hyn yn cynnwys mynd i'r afael â hawliau hanesyddol pysgota a mynediad cychod i ddyfroedd Prydain, a mynediad pysgotwyr Prydain i ddyfroedd yr UE.

## Polisi Cydlyniant yr UE (Cronfeydd Strwythurol)

Prif nod rhaglenni presennol **Cronfeydd Strwythurol yr UE** yw creu amgylchedd a fydd yn cefnogi twf economaidd a swyddi.

O dan rownd bresennol y Cronfeydd Strwythurol, sy'n rhedeg o 2014 i 2020, dyrannwyd bron £2 biliwn i Gymru gan yr UE - gydag £1.6 biliwn yn cael ei roi i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a thros £325 miliwn yn cael ei roi i Ddwyrain Cymru. Yn gyfan gwbl, ynghyd ag arian cyfatebol, disgwylir i'r rownd bresennol o Gronfeydd Strwythurol gefnogi cyfanswm buddsoddiad yng Nghymru o tua £3 biliwn. Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r cyllid yng Nghymru, ond mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyd yn ymwneud â chyflwyno prosiectau.

Dyma'r trydydd tro i Orllewin Cymru a'r Cymoedd fod yn gymwys i gael y lefel uchaf o gymorth drwy'r Cronfeydd Strwythurol, sydd ar gael i ranbarthau 'llai datblygedig' yr Undeb Ewropeaidd - rhanbarthau lle y mae'r cynnyrch domestig gros fesul y pen yn llai na 75 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer y UE. Cernyw ac Ynysoedd Scilly yw'r unig ranbarth arall o'r DU i'w gynnwys yn y categori 'llai datblygedig' am y trydydd tro.

Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn cynnwys dwy ffrwd ariannu - Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

Mae disgwyl i'r rhaglenni ESF, sy'n werth bron i £642m o arian yr UE ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhyw £162m ar gyfer Dwyrain Cymru, arwain at gyfanswm buddsoddiad (h.y. gydag arian cyfatebol) o tua £1.2 biliwn. Nod gwariant ESF yw cefnogi prosiectau a fwriedir i helpu i drawsnewid rhagolygon y rheini sydd fwyaf ar yr ymylon ac yn agored i niwed mewn cymdeithas, arwain at gynydd o ran cynhyrchiant a thwf, a buddsoddi yn nyfodol pobl ifanc yng Nghymru.

Mae disgwyl i'r rhaglenni ERDF, sy'n werth tua £960m ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a £162m ar gyfer Dwyrain Cymru, arwain at gyfanswm buddsoddiad o tua £1.8 biliwn yng Nghymru. Nod gwariant ERDF yw cefnogi ymchwil ac arloesi, cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint, ariannu buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, a buddsoddi mewn ffyrdd, cludiant cyhoeddus a datblygiad trefol.

## Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd

Mae'r rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd 2014-2020 yn rhoi cyfleoedd i ranbarthau yn yr UE weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyffredin. Mae Cymru yn rhan o'r rhaglenni ETC canlynol:

- **Rhaglen Iwerddon Cymru:** mae rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yn cefnogi busnesau a sefydliadau ar draws y ddwy genedl ac mae'n werth €79 miliwn o arian ERDF.
- **Rhaglen Ardal yr Iwerydd:** rhaglen draws-wladol sy'n canolbwyntio ar y môr, sy'n werth €140 miliwn o arian ERDF, gan gysylltu rhanbarthau ar arfordir yr Iwerydd, gan gynnwys Iwerddon, ardaloedd o Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal ac ardaloedd yn y DU, gan gynnwys Cymru gyfan. Ar hyn o

bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel Gohebydd Cenedlaethol Rhaglen Ardal yr Iwerydd ar gyfer y DU.

- **Rhaglen Gogledd-Orllewin Ewrop:** mae'r rhaglen draws-wladol hon, sy'n werth €396 miliwn o arian ERDF, yn cysylltu'r DU (gan gynnwys Cymru gyfan) ag Iwerddon, Gwlad Belg, Lwcsembwrg ac ardaloedd o Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Swistir.
- **Interreg EUROPE:** mae'r rhaglen ryngranbarthol hon, sy'n werth €359 miliwn o arian ERDF, yn cynnwys yr UE28 yn ogystal â'r Swistir a Norwy, a'i nod yw cyfnewid polisi ar draws rhanbarthau'r UE.
- **URBACT III:** mae'r rhaglen ryngranbarthol hon, sy'n werth €74 miliwn o arian ERDF, yn cynnwys yr UE28 yn ogystal â'r Swistir a Norwy. Mae URBACT yn hyrwyddo datblygiad trefol cynaliadwy ac yn galluogi dinasoedd Ewropeaidd i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion i heriau trefol.
- **ESPON 2020:** mae ESPON (Rhwydwaith Arsylwi Ewrop ar gyfer Datblygu Tiriogaethol a Chydlyniant) werth €41 miliwn ac yn cynnwys yr UE28 yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Norwy a'r Swistir.
- **INTERACT:** mae'r rhaglen hon yn cynnwys yr UE28 yn ogystal â Norwy a'r Swistir ac mae'n werth €39 miliwn o arian ERDF. INTERACT yw'r canolbwynt ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac arfer gorau ymhlith rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Gweler **Adran 7** isod am drafodaeth ar oblygiadau gadael yr UE i fynediad Cymru at y cyllid hwn.

## Yr Amgylchedd

Mae cryn dipyn o ddeddfwriaeth bresennol yr amgylchedd yn deillio o gyfraith Ewrop. Hyd yn hyn, mae'r Aelod-wladwriaethau yn gyffredinol wedi cefnogi camau o dan arweiniad yr UE gan fod gan lawer o faterion a phryderon amgylcheddol oblygiadau trawsffiniol: er enghraifft, fel llygredd ac ansawdd aer, a rhywogaethau estron goresgynnol.

Ers yr 1970au, cytunodd yr UE ar dros 200 o ddarnau o ddeddfwriaeth i warchod yr amgylchedd, yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi, sy'n golygu bod cyfraith yr UE yn sail i gyfran sylweddol o ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru (a'r DU yn ehangach).

Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy'n cwmpasu:

- Gwastraff ac ailgylchu, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff**, y **Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus**, y **Gyfarwyddeb Cludo Gwastraff**, y **Gyfarwyddeb Tirlenwi**, y **Gyfarwyddeb Gwastraff o Offer Electronig a Thrydanol**;
- Dŵr, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr**, y **Gyfarwyddeb Dwr Yfed**, y **Gyfarwyddeb Dwr Ymdrochi**, y **Gyfarwyddeb Llifogydd**, y **Gyfarwyddeb Dwr Gwastraff Trefol** a'r **Gyfarwyddeb Nitradau**;
- Cynllunio a datblygu, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol** a'r **Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol**, sy'n nodi'r gofynion asesu amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau; a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol fel y cwmpesir eisoes yn yr adran uchod ar bysgodfeydd a'r môr;
- Natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Cynefinoedd**, y **Gyfarwyddeb Adar**, a'r rheoliadau **Rhywogaethau Estron Goresgynnol**;
- Deddfwriaeth aer a sŵn, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Ansawdd Aer** a'r **Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol**;
- Diwydiant, gan gynnwys y safonau ecolabelu ar gyfer cynhyrchion a'r **Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol**;

– Diogelwch ac asesu cemegol, gan gynnwys y **Gyfarwyddeb Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngiadau Cemegau**.

Mae'r rhain i gyd yn cael effaith uniongyrchol ar waith y Cynulliad, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn rheoli gwastraff ac yn cyflwyno deddfwriaeth drwy fframwaith cyfreithiol yr UE ar wastraff. Mae'n ofynnol bod targedau ailgylchu a thirlenwi Llywodraeth Cymru yn cyrraedd safonau gofynnol yr UE ac mae'n rhaid bod gwasanaethau casglu gwastraff awdurdodau lleol yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Ddiwygiedig. Mae deddfwriaeth Ewropeaidd hefyd yn rheoli'r broses o gasglu, trin a gwaredu gwastraff peryglus ac electronig ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a busnesau gydymffurfio â'r safonau hyn.

Caiff y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ei gweithredu ar sail basnau afonydd, yn hytrach nag ar sail ffiniau cenedlaethol, trwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (CRhBA). Mae tair ardal basn afon wedi'u nodi yng Nghymru, ac mae dwy ohonynt yn pontio'r ffin â Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am yr ardal sy'n gorwedd yn gyfan gwbl yng Nghymru (ardal Gorllewin Cymru) ac mae'n gyfrifol ar y cyd â Llywodraeth y DU am y ddwy ardal sy'n pontio'r ffin (ardaloedd Hafren a Dyfrdwy).

Caiff safonau ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi eu gosod ar sail yr UE. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am brofi dyfroedd ymdrochi dynodedig o leiaf 12 gwaith y flwyddyn. Cyhoeddir adroddiad blynyddol sy'n nodi pa ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru a gyrrhaeddodd y safonau gofynnol a pha rai a fethodd. Ceir 102 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru.

Mae'r gwaith o asesu'r effeithiau amgylcheddol a gaiff cynlluniau a rhaglenni yng Nghymru gan lywodraeth ac awdurdodau lleol, fel ffordd liniaru'r M4, yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan ofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn yr un modd, ar hyn o bryd y Cyfarwyddebau Asesiad Effaith Amgylcheddol sy'n gosod y safonau a'r gofynion ar gyfer asesu'r effeithiau amgylcheddol a gaiff prosiectau unigol penodol fel gorsafoedd pŵer. Rhaid i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio yng Nghymru ystyried y gofynion perthnasol.

Ar hyn o bryd ceir **92 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru** gan gynnwys rhai safleoedd trawsffiniol, sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd oherwydd eu pwysigrwydd i rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sy'n agored i niwed. Hefyd, ar hyn o bryd ceir **20 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng Nghymru**, gan gynnwys tri safle trawsffiniol, sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Adar oherwydd eu pwysigrwydd i rywogaethau o adar sy'n agored i niwed.

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am adnabod, dynodi a rheoli'r safleoedd hyn, ac mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eraill, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector ystyried eu heffeithiau ar y rhywogaethau a warchodir ganddynt.

Caiff Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol Llywodraeth Cymru a chymau rheoli lleol ar ansawdd aer gan awdurdodau lleol eu fframio gan ofynion y ddeddfwriaeth Ewropeaidd ar ansawdd aer. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod safonau ar gyfer lefelau llygredd aer, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol adrodd yn rheolaidd ar beth yw'r rhain a chymryd camau i fynd i'r afael â lefelau uchel o lygredd aer.

Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon ar ffurf cyfarwyddebau, sy'n golygu y bydd Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru wedi trosi hyn i gyfraith y DU. I'r perwyl hwn, mae ar lyfrau statud y DU.



Mae'r mwyafrif helaeth o bolisi a deddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru yn cael eu rheoli gan fframweithiau a rheoliadau cyfreithiol sy'n cael eu gosod ar lefel Ewropeaidd. Mae hyn yn golygu bod y camau sy'n cael eu cymryd o ran polisi amgylcheddol, yn wahanol i rai meysydd polisi eraill, yn gymharol gyson ar draws y DU.

Gan fod llawer iawn o ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn cael ei throsi i gyfraith y DU, gallai nifer o bolisiau a rheoliadau aros yn ddigynfnewid ar y cychwyn. Fodd bynnag, gan fod yr amgylchedd yn faes polisi datganoledig i raddau helaeth, gallai gwahanol lywodraethau ar draws y DU gymryd y cyfle i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o osod polisi. Yn yr achos hwn, byddai angen cynnal trafodaethau am faterion fel yr effeithiau trawsffiniol yn sgil newidiadau i bolisi. Yn ogystal, oherwydd y bydd safonau amgylcheddol yn yr UE yn parhau yr un fath, bydd angen ystyried pa ofynion y byddai angen i gynhyrchwyr nwyddau yng Nghymru eu bodloni er mwyn gallu masnachu ag Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae rhywfaint o'r deddfwriaeth amgylcheddol Ewropeaidd ar ffurf rheoliadau ac nid yw wedi'i throsi'n uniongyrchol i gyfraith y DU yn y meysydd hyn. Felly byddai angen ystyried yr effaith pe bai'r DU yn tynnu allan o'r UE a gosod deddfwriaeth newydd yn ei lle.

Mae prosiectau/mentrau a rhwydweithiau amgylcheddol yn cael cefnogaeth fel blaenoriaeth gan nifer o raglenni'r UE, gan gynnwys y Cronfeydd Strwythurol, y PAC, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, LIFE+ a Horizon 2020, ac mae Llywodraeth Cymru, prifysgolion, busnesau a sefydliadau rhanddeiliaid eraill wedi bod yn weithgar yn yr amryw raglenni hyn.

Byddai cyfranogiad yn y dyfodol yn y gwahanol ffyrddau cyllid hyn yn cael ei effeithio gan adael yr Undeb Ewropeaidd, a byddai'n ddibynol ar ganlyniad y trafodaethau.

## Ynni a newid yn yr hinsawdd

Mae cysylltiadau amlwg rhwng ynni a newid yn yr hinsawdd. Mae cymhwysedd y Cynulliad dros ynni mewn cyfnod o newid ar hyn o bryd: mae Bil Cymru 2016 yn debygol o roi pwerau cydsynio pellach i Lywodraeth Cymru dros brosiectau ynni hyd at 350 MW, ac mae deddfwriaeth amgylcheddol newydd wedi ymrwymo Cymru i weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Er nad yw gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn gymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli'n llawn, mae gan Gymru ei thargedau ei hun ar gyfer newid yn yr hinsawdd sydd yng nghyd-destun cyfraith yr UE a chyfraith y DU. Mae'r ddau faes yn debygol o fod yn agweddau allweddol yng ngwaith y Cynulliad yn y dyfodol.

Mae gan yr UE dargedau hinsawdd uchelgeisiol ar gyfer 2020: gostyngiad o 20 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (o'i gymharu â llinell sylfaen 1990), 20 y cant o gyfanswm y defnydd o ynni yn dod o ynni adnewyddadwy, a chynnydd o 20 y cant mewn effeithlonrwydd ynni. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y **Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (2009)** (sy'n pennu polisi cyffredinol ar gyfer cynhyrchu a hybu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn yr UE) a'r **Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni (2012)**. Erbyn 2030, mae'r UE wedi gosod targed i leihau 40 y cant ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, sicrhau bod o leiaf 27 y cant o gyfanswm defnydd ynni yn dod o ynni adnewyddadwy, a chynnydd o 27 y cant o leiaf mewn effeithlonrwydd ynni.

Caiff cymhwysedd yr UE ym maes ynni ei bennu yn Erthygl 4 o'r TFEU (caiff ynni ei restru fel 'cymhwysedd a rennir' fel amaethyddiaeth, yr amgylchedd a physgodfeydd), ac Erthygl 194 o'r TFEU (sy'n cyfeirio at ynni yng nghyd-destun y farchnad fewnol a gwarchod yr amgylchedd naturiol).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu ymrwymiad cryf ar lefel yr UE i greu **Undeb Ynni**. Mae Comisiwn Juncker wedi sbarduno hyn, gyda'r Undeb Ynni yn un o'r 10 o fentrau sydd wedi cael blaenoriaeth wleidyddol o dan ei Lywyddiaeth. Nod yr Undeb Ynni yw mynd i'r afael â natur ddarniog y marchnadoedd ynni ar draws yr UE, drwy symud tuag at fframwaith ynni integredig sydd â'r nod o fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ynni, cynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy i gyflawni ymrwymadau yr UE o ran yr hinsawdd ac ynni, a gwella cystadleurwydd ac effeithlonrwydd

drwy greu marchnad ynni fewnol ar draws yr UE. I gael mwy o wybodaeth am y perthnasedd i Gymru, gweler **Briff y Gwasanaeth Ymchwil ar yr Undeb Ynni** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016.

Cafodd y cynigion ar gyfer yr Undeb Ynni eu croesawu'n gyffredinol gan Lywodraeth y DU, yn enwedig o ran y polisi blaengar ar yr hinsawdd a pha mor ganolog oedd cwblhau'r farchnad ynni fewnol. Mae polisi ynni Llywodraeth Cymru, er enghraifft, *Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel a Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol*, eisoes yn mynd i'r afael â nifer o syniadau a gynigir gan y fframwaith Undeb Ynni: Cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad ymchwilad manwl ynghylch Dyfodol Ynni Craffach, gan dynnu ar fodolau ynni Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru** 10 mlynedd cyntaf yn ddiweddar, gan barhau â themâu o lefel yr UE i'w gweithredu yn genedlaethol, gan gynnwys ffocws ar effeithlonrwydd ynni tai, busnesau ac eiddo yn y sector cyhoeddus.

Yn ymarferol, mae llawer o ardaloedd wedi'u datganoli, gyda chadwraeth ynni, trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi, a rheoleiddio effeithlonrwydd ynni y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad. Mae'n annhebygol y bydd y Llywodraeth eisiau gwrthdroi'r duedd am fwy o dryloywder a chwarae teg fel sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd drwy Drydydd Pecyn Ynni'r Comisiwn a thrwy Fframwaith 2015 yr Undeb Ynni.

Mae ynni a newid yn yr hinsawdd yn feysydd y mae'r UE wedi bod yn eu blaenoriaethu'n gynyddol o ran eu cefnogi â chyllid yr UE - mae rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol yn cynnwys isafswm trothwyon gwariant ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, ac mae Horizon 2020 hefyd yn gwneud ymrwymiad mawr i gefnogi ymchwil a datblygu yn y meysydd hyn. Un enghraifft o hyn yng Nghymru yw'r ymrwymiad o £80m o Gronfeydd Strwythurol yr UE i ddatblygu ynni'r môr i gefnogi dau safle prawf oddi ar arfordiroedd gogledd a gorllewin Cymru. Mae'r sector ynni cefnfor wedi cael blaenoriaeth strategol gref ar lefel yr UE, ac yn ddiweddar mabwysiadwyd y Llwybr Ynni Cefnfor. Mae'r UE o'r farn bod potensial enfawr i'r maes hwn, ond mae'n wynebu nifer o heriau o ran gwireddu'r potensial hwn. Mae Cymru wedi cael sylw amlwg yn y gwaith hwn, yn enwedig y cynlluniau i greu nifer o 'forlynnoedd llanw' ar arfordir Cymru, gan gynnwys Morlyn Llanw Bae Abertawe.

Mae ymrwymiadau'r DU ar newid yn yr hinsawdd wedi'u nodi yn *Neddf Newid Hinsawdd 2008*, sy'n gosod fframwaith ar draws y DU er mwyn i Lywodraeth Cymru (a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU) osod eu polisiâu a'u cyfreithiau eu hunain ym maes newid hinsawdd. Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn rhoi dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80 y cant yn is na llinell sylfaen 1990/1995. Dyma'r un targed ag sydd wedi'i nodir yn *Neddf y DU a Deddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009*. Ni fyddai gadael yr UE yn cael gwared ar y targedau hinsawdd cyfreithiol rwydol i'r DU o dan *Ddeddf Newid Hinsawdd 2008*, ond gallai roi mwy o ffocws ar bob agwedd ar gynhyrchu yn y DU. Gallai hyn fod yn arbennig o wir pe bai gadael yn arwain at waethygu diogelwch y cyflenwad trwy lai o gydgyssylltedd ag Ewrop, llai o gysoni o ran marchnadoedd ynni'r UE, neu lai o fuddsoddiad yn y DU gan gwmnïau rhyngwladol.

Gallai gadael yr UE hefyd effeithio ar gyfranogiad y DU yng **Nghynllun Masnachu Allyriadau'r UE (ETS)**. Nod y cynllun hwn yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr diwydiannol drwy system 'capiu a masnachu'. Er bod cymryd rhan yn yr ETS yn fater sydd wedi'i gadw, mae'n cael effaith sylweddol yng Nghymru oherwydd presenoldeb nifer o ddiwydiannau ynni dwys uchel yn y wlad, ac mae wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ar ymateb i'r **argyfwng dur**.

Cynhaliodd **Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC)** gynhadledd flynyddol rhif 21 (COP) ym Mharis ddiwedd 2015. Prif ganlyniad y gynhadledd oedd cytundeb rhwng y 197 o'r gwladwriaethau (y mae'r DU yn un ohonynt) ar gyfyngu tymheredd bydeang yn codi i 'dipyn yn is na' 2C o'r llinell sylfaen cyn-ddiwydiannol. Byddai gadael yr UE yn effeithio ar ymrwymiadau newid hinsawdd rhyngwladol y DU o dan UNFCCC. Ar hyn o bryd, mae'r DU yn trafod fel rhan o'floc yr UE, ac mae wedi gosod targedau yn fewnol sydd, ynghyd â rhai yr Aelod-wladwriaethau

eraill, yn anelu at gyrraedd targed cyffredinol yr UE. Pe bai'r DU yn tynnu allan o'r UE, byddai angen mynd i'r afael â diffyg targed penodol i'r DU o dan UNFCCC.

Ar gyfer trafodaethau UNFCCC yn y dyfodol, byddai'r DU yn un llais yn y trafodaethau. Gallai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad, felly, gael mynediad mwy uniongyrchol i ddylanwadu ar y sefyllfa a gyflwynwyd yn y trafodaethau. Fodd bynnag, nododd Adolygiad Llywodraeth y DU o Gydbwysedd Cymwyseddau bod trafod fel rhan o floc yr UE yn fwy dylanwadol ar y lefel ryngwladol o ystyried pwysau corff sy'n cynrychioli 28 o Aelod-wladwriaethau.

## Polisi iechyd a gofal cymdeithasol

Mae iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u datganoli, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, drwy gyfrwng y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a hybu iechyd yng Nghymru.

Mae cymhwysedd yr UE yn y maes hwn yn fwy cyfyngedig na mewn meysydd fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd. Mae'r Cytuniad yn nodi'n glir bod yr Aelod-wladwriaethau yn gyfrifol am:

---

*...the definition of their health policy and for the organisation and delivery of health services and medical care. The responsibilities of the Member States shall include the management of health services and medical care and the allocation of the resources assigned to them. (Erthygl 168.7, TFEU)*

---

Mae iechyd y cyhoedd wedi'i restru yn Erthygl 6 y TFEU ymhlith ystod o feysydd polisi lle gall yr UE:

---

*"...carry out actions to support, coordinate or supplement the actions of the Member States. This can include for example supporting mutual learning through benchmarking and sharing of good practice between the different health care systems operating across the EU.*

---

Mae Erthygl 168 o'r TFEU yn nodi'r mathau o gamau y gall yr UE eu cymryd ym maes iechyd y cyhoedd, sy'n cynnwys mesurau i fynd i'r afael â 'phroblemau iechyd mawr' a 'bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd'.

Mae hefyd yn diffinio'r cwmpas ar gyfer camau i'w cymryd ar lefel yr UE mewn nifer o feysydd eraill: (i) safonau ansawdd a diogelwch organau a sylweddau o darddiad dynol, gwaed a gwaed ddeilliadau; (ii) meysydd milfeddygol a ffytoiiechydol mewn perthynas â diogelu iechyd y cyhoedd; a (iii) safonau ansawdd a diogelwch ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol a dyfeisiau at ddefnydd meddygol.

Y tu hwnt i'r mesurau penodol hyn yn y Cytuniad ar iechyd y cyhoedd, mae yna nifer o ffyrdd eraill y mae cyfraith yr UE yn effeithio ar systemau gofal iechyd a nawdd cymdeithasol, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r rhyddid i symud o fewn yr UE (ac mewn rhai achosion yn yr Ardal Economaidd Ewropeidd a'r Swistir yn ogystal).

Mae deddfwriaeth gyffredin ar waith ar gyfer yr Ardal Economaidd Ewropeidd a'r Swistir o ran **cydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol**, (Rheoliad (CE) Rhif 883/2004) sy'n rhoi hawliau mynediad i ddinasyddion o'r gwledydd cyfranogol at y gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y **Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeidd (EHIC)**, sy'n caniatáu i bobl gael gofal meddygol gan y wladwriaeth yn ystod arhosiad dros dro mewn gwlad arall yn yr UE. Mae hyn yn ymestyn i Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ yn yr Ardal Economaidd Ewropeidd, a hefyd i'r Swistir sydd â chytundeb dwyochrog gyda'r UE yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynnwys proses awdurdodi ar gyfer triniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeidd a'r Swistir.

Yn 2011, rhoddodd **Cyfarwyddeb newydd yr UE ar gymhwyso hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol (Cyfarwyddeb 2011/24/UE)** y cyfle i ddinasyddion wneud cais am ad-daliad yn dilyn triniaeth gofal iechyd. Mae hyn yn gyfyngedig i Aelod-wladwriaethau'r UE.

Mae yna nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth yr UE ym maes cyflogaeth sydd hefyd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- cydnabod cymwysterau proffesiynol - mae hyn yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol o wledydd yr UE i weithio yn systemau gofal iechyd Aelod-wladwriaethau eraill yr UE
- amodau gwaith fel y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith sy'n gosod terfyn ar nifer yr oriau y gellir eu gweithio mewn wythnos waith gyfartalog (mae'r deddfwriaeth hon yn berthnasol hefyd i wasanaethau tân ac achub)

Ynghyd â chyrrff cyhoeddus ac awdurdodau eraill yng Nghymru, mae rheolau'r UE ar gaffael cyhoeddus yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli a darparu gofal iechyd yng Nghymru. Fel Cyfarwyddebau'r UE, caiff y rhain eu trosi i gyfraith y DU trwy ddeddfwriaeth gan ddau Dŷ'r Senedd.

Mae ymchwil feddygol yn faes arall lle y mae dimensiwn yr UE o ddiddordeb arbennig. Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad gan brifysgolion a thimau ymchwil o Gymru yn Horizon 2020, rhaglen ymchwil yr UE, a hynny drwy geisiadau cystadleuol. Mabwysiadodd y UE deddfwriaeth newydd ar breifatrwydd data ym mis Ebrill 2016, ac yn ystod y trafodaethau ar y cynigion drafft cafwyd lobïo cryf gan y gwasanaethau iechyd gwladol a oedd yn pryderu am effaith bosibl y rheolau caeth ar fynediad i gofnodion meddygol at ddibenion ymchwil feddygol.

Mae maes arall y mae'r UE wedi ceisio deddfu ynddo yn ddiweddar yn ymwneud â sylweddau seicoweithredol newydd. Cymerodd **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** y Cynulliad ddiddordeb arbennig yn hyn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad gyda'i ymchwiliad i'r mater hwn.

Mae'r Siarter Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol hefyd yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at iechyd a mynediad at wasanaethau gofal iechyd (Erthyglau 31, 32 a 35).

Fel y nodwyd yn **Adran 5** uchod, pan fydd y DU yn tynnu allan o'r UE, ni fydd darpariaethau penodol y cytuniad bellach yn gymwys i'r DU. Fodd bynnag, bydd natur y cytundeb i dynnu allan yn pennu i ba raddau y bydd rhai o'r meysydd a nodir uchod yn parhau i fod yn berthnasol i wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru a'r rhannau eraill o'r DU. Mae cydweithredu ar draws systemau iechyd a nawdd cymdeithasol yn ymestyn y tu hwnt i'r Aelod-wladwriaethau UE28 i gynnwys y Swistir, Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ. Mae sicrhau trefniadau cyfatebol yn debygol o fod yn flaenoriaeth yn y trafodaethau ar y pwnc hwn.

I gael trosolwg manylach ar sut y mae'r UE yn berthnasol i ofal iechyd yn y DU, ewch i **wefan Swyddfa Ewropeaidd y GIG**.

## Addysg

Fel yn achos iechyd, daw addysg o dan Erthygl 6 o TFEU. Fel y cyfryw, mae'r posibilrwydd o ymyrraeth gan yr UE yn fwy cyfyngedig nac y mae yn y meysydd eraill a drafodwyd yn gynharach yn yr adran hon.

Unwaith eto, mae'r Cytuniad yn datgan yn glir mai'r Aelod-wladwriaethau sy'n gyfrifol am addysg, a bod lle i'r UE chwarae rôl gefnogi (Erthygl 165.1 TFEU):

---

*The Union shall contribute to the development of quality education by encouraging cooperation between Member States and, if necessary, by supporting and supplementing their action, while fully respecting the responsibility of the Member States for the content of teaching and the organisation of education systems and their cultural and linguistic diversity.*

---

Un o'r meysydd lle mae ymyrraeth yr UE ym maes addysg a hyfforddiant yn fwyaf amlwg yw'r camau i gefnogi a hwyluso symudedd myfyrwyr, athrawon ac academyddion yn yr UE. Caiff y cymorth hwn ei ddarparu drwy raglen Erasmus+.

Hefyd, mae gan brifysgolion, sefydliadau ymchwil a busnesau ymchwil Cymru ddiddordeb cryf mewn cymryd rhan yn rhaglenni ymchwil yr UE - Horizon 2020 (a'r Rhaglenni Fframwaith a'i rhagflaenodd). Yn ystod 2007-2013, sicrhodd Cymru dros €140m yng nghyllid yr UE o'r ffynhonnell hon, a tharged addysg uwch Cymru yw cynyddu hyn ar gyfer 2014-2020.

Cymerodd y Pwyllgor Menter a Busnes ddiddordeb mawr yn y meysydd hyn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gan gynnal dau ymchwiliad a ystyriodd y cyfleoedd i Gymru yn sgil rhaglenni ymchwil a symudedd yr UE: (i) **Cyfleoedd Cyllid yr UE 2014-2020**; a (ii) **Horizon 2020**.

Fel yn achos iechyd, mae cyfraith yr UE sy'n ymwneud â'r Farchnad Sengl, cyfraith gyflogaeth, rheolau ar gydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol, a deddfwriaeth caffael cyhoeddus ac ati yn berthnasol yn yr un ffordd i ddarparwyr addysg gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r hawliau i beidio â dioddef gwahaniaethu (a nodir yn Erthyglau 18-25 o'r TFEU) yn cynnwys gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd (Erthygl 18). Mae hyn yn golygu, at ddibenion rhoi cymorth gyda ffioedd dysgu, bod yn rhaid i ddinasyddion yr UE o'r tu allan i'r DU sy'n dymuno astudio yng Nghymru gael eu trin yn yr un ffordd â phe byddent yn hanu o Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu'r un lefel o gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru sy'n dod o rannau eraill o'r DU. Nid yw myfyrwyr o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, felly, yn cael y Grant Ffioedd Dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i gostau dysgu yn unig, nid i gymorth gyda chostau byw.

Mae'r DU yn aelod o'r **Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**. Yn ddiweddar, mae'r OECD wedi cael dylanwad sylweddol ar bolisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru, yn fwyaf nodedig ym maes addysg. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod **Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)** yr OECD yn arwyddocaol, ac fe gomisiynodd yr OECD hefyd i gynnal **adolygiad o bolisi addysg yng Nghymru** (PDF 3.74MB) - cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2014. Pe bai'r DU yn gadael yr UE, byddai'n parhau i fod yn aelod o'r OECD oni bai y bydd penderfyniad ar wahân i newid hyn. Nid yw aelodaeth o'r OECD yn unigryw i Aelod-wladwriaethau'r UE. Nid yw ychwaith yn rhywbeth sy'n unigryw i Ewrop, gan fod aelodau o bedwar ban byd yn aelodau, fel Japan, Mecsico a'r Unol Daleithiau.

## Y Gymraeg, diwylliant a thwristiaeth

Fel yn achos iechyd ac addysg, mae cwrpas cyfranogiad yr UE ym meysydd iaith, diwylliant a thwristiaeth yn gyfyngedig.

Mae gan y Gymraeg statws cyd-swyddogol ar lefel yr UE. Mae cytuniadau ar waith sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r Gymraeg yn swyddogol yng nghyfarfodydd y Cyngor, lle y maent yn cynrychioli'r DU; i gynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau ei defnyddio mewn sesiynau llawn (gwnaeth Rhodri Glyn Thomas, un o gyn-Aelodau'r Cynulliad, hyn ar bedwar achlysur rhwng 2010 a 2016); ac mewn gohebiaeth â'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r UE wedi darparu cymorth, fel arfer drwy gyllid ar gyfer rhwydweithiau, prosiectau a gweithgareddau ymchwil, ar gyfer ieithoedd llai eu defnydd. Mae sefydliadau o Gymru yn aml wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith hwn. Yn yr un modd, ym maes twristiaeth, cyllid yr UE yw un o'r prif ffyrdd y mae gweithgarwch ar lefel yr UE yn effeithio ar y sector hwn, yn arbennig drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig a thrwy Gronfeydd Strwythurol yr UE.

O fewn y sector diwydiannau creadigol a diwylliannol mae arlunwyr, gwneuthurwyr ffilm a mentrau creadigol yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid dan raglenni Creative Europe a

Chyfryngau yr UE. Enghraifft nodedig o hyn yw Hinterland/Y Gwyll, sydd wedi cael ei darlledu yn nifer o wledydd yr UE gyda chefnogaeth cyllid yr UE.

Byddai'r gallu i fanteisio ar fentrau a rhaglenni o'r fath yn y dyfodol yn amodol ar ganlyniad y trafodaethau ynglŷn â thynnu allan. Gall gwledydd eraill y tu allan i'r UE (er enghraifft Gwlad yr Iâ a Norwy) gymryd rhan yn Creative Europe - cyn belled â'u bod yn gwneud cyfraniad ariannol i gefnogi cyfranogiad eu hartistiaid/mentrau creadigol eu hunain ym mhrosiectau/rhwydweithiau'r UE o dan y rhaglen hon.

## Y Farchnad Sengl

Mater wedi'i gadw yw cyfranogiad y DU yn y Farchnad Sengl, a Llywodraeth y DU sy'n cymryd yr awenau ar faterion polisi a deddfwriaethol sy'n ymwneud â hyn. Fodd bynnag, mae hwn yn faes y mae gan Lywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU ddiddordeb mawr ynddo.

Cyflwynwyd y cysyniad o 'farchnad sengl' ym 1986 gan Ddeddf y Farchnad Sengl. Dylid nodi nad yw Cytuniadau'r UE yn cyfeirio at Farchnad Sengl - maent yn cyfeirio at farchnad fewnol yn yr UE rhwng Aelod-wladwriaethau. Ffocws y Farchnad Sengl yw trin tiriogaeth yr UE fel un diriogaeth, heb ffiniau mewnol na rwystrau rheoliadol eraill rhag symud nwyddau, cyfalaf a gwasanaethau yn rhydd. Mae hyn yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â rwystrau i fasnachu, a safoni/cysoni rheolau technegol a rheolau eraill sy'n darparu'r fframwaith rheoliadol ar gyfer nwyddau, cyfalaf a gwasanaethau. Mae hefyd yn cynnwys rheolau caffael cyhoeddus er mwyn agor contractau ar gyfer darparu nwyddau, gwaith a gwasanaethau i gystadleuaeth ar draws tiriogaeth yr UE, a fframwaith cystadleuaeth ehangach yr UE sy'n anelu i gael gwared ar wyriadau o ran cystadleuaeth a masnach.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod mwy na 600 o gwmnïau ledled Cymru wedi allforio nwyddau i'r UE yn 2014 a oedd yn werth dros £5 biliwn, sy'n cyfateb i 43 y cant o gyfanswm y nwyddau a allforiwyd. Ar ben hynny, mae'n nodi bod gan dros 500 o gwmnïau o wledydd eraill yr UE weithrediadau yng Nghymru, gan ddarparu mwy na 57,000 o swyddi.

Canfu'r **Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes** (CEBR - Mawrth 2014) fod dros 4 miliwn o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y DU yn dibynnu ar allforion i'r UE. Mae tua 200,000 o'r swyddi hyn yng Nghymru, sef tua 14 y cant o'r gweithlu.

Mae **Ystadegau Llywodraeth y DU ar gyfer 2015** (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) ar allforio nwyddau o Gymru i'r UE yn dangos bod cynhyrchion dur yn cyfrif am ychydig o dan 15 y cant o'r cyfanswm, bod peiriannau a chyfarpar trafndiaeth yn cyfrif am oddeutu 25 y cant, a bod allforio petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig yn cyfrif am ychydig o dan 17 y cant o'r cyfanswm. Roedd bwyd ac anifeiliaid byw yn cyfrif am oddeutu 5 y cant o gyfanswm y nwyddau a allforiwyd o Gymru i'r UE yn 2015.

Mae aelodau EFTA yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ) yn cymryd rhan yn y Farchnad Sengl (gweler **Adran 4** uchod). Yn gyfnewid am y mynediad hwn mae gofyn iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol yr UE sy'n gosod y rheolau ar gyfer gweithrediad y Farchnad Sengl.

Y rhyddid i symud nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a phobl yw'r sylfaen i weithrediad marchnad fewnol yr UE ac mae hyn wrth wraidd cysyniad y Farchnad Sengl.

## Masnach

Mae polisi masnach yn bŵer unigryw i'r UE - felly dim ond yr UE, ac nid Aelod-wladwriaethau unigol, a gaiff gwblhau cytuniadau masnach ryngwladol a deddfu ar faterion masnachol (ar wahân i unrhyw waith y mae angen i'r Aelod-wladwriaethau ei wneud i roi deddfwriaeth ar waith).

Mae Senedd Ewrop yn penderfynu ar y cyd â'r Cyngor ar fframwaith polisi masnach yr UE - drwy'r weithdrefn ddeddfwriaethol arferol. Er bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gychwyn polisi masnach, rhaid i'r cyd-ddeddfwyr dod i gytundeb er mwyn i'w gynigion gael eu mabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r Cyngor yn mabwysiadu cytuniadau rhyngwladol wedi i'r Senedd roi ei chydysniad.

Mae map o gytundebau masnach yr UE ar gael ar wefan y Comisiwn **yma**, ac mae mwy o wybodaeth ar gael **yma**.

Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yw'r sefydliad rhyngwladol ar gyfer masnach, ac mae ganddo 162 o aelodau. Mae'r UE wedi bod yn **aelod o'r WTO** ers 1995. Mae pob un o Aelod-wladwriaethau'r UE hefyd yn aelod o WTO eu hunain. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn siarad ar ran holl Aelod-wladwriaethau'r UE ym mhob cyfarfod bron o'r WTO.

## TTIP

---

Mae'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig, neu TTIP, yn gytundeb masnach arfaethedig rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau. Os cytunir ar y Bartneriaeth, hwn fydd y cytundeb masnach rydd mwyaf yn y byd. Ym mis Ebrill 2016, cwblhaodd yr UE ac UDA **drydedd rownd ar ddeg y trafodaethau TTIP**.

Ers y cychwyn, mae TTIP wedi bod yn hynod ddadleuol. Mae rhai sylwebyddion yn ofni'r cynigion, y maent yn credu y gallent arwain at breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr yn ddistaw bach, a rhoi lefel ddigynsail o bŵer i gorfforaethau dros lywodraethau etholedig, yn ogystal ag arwain at 'ras tua'r gwaelod' o ran rheoleiddio mewn perthynas â safonau amgylcheddol a diogelwch. Mae'n debyg mai'r pwynt mwyaf dadleuol yn y trafodaethau yw'r mater o setlo anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gwrthbrofi'r honiadau hyn. Ym mis Mai 2016, ysgrifennodd y Comisiynydd Masnach Cecilia Malstrom **lythyr** i Unite, yn gwrthod ei honiad bod y GIG o dan fygythiad oherwydd TTIP, ac yn datgan: '*The NHS is not affected by TTIP or other EU trade agreements regardless of how its services are delivered*'.

## Masnach yng Nghymru ar ôl gadael yr UE

---

Er nad yw rheoleiddio masnach ryngwladol wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn weithgar o ran hyrwyddo allforion o Gymru a mewnfuddsoddi drwy ei chymhwysedd cyffredinol ar gyfer datblygu economaidd. Mae'n ymddangos yn debygol fodd bynnag, pan na bai'r DU bellach yn aelod o'r UE, y bydd cymhwysedd dros reoleiddio masnach ryngwladol yn cael ei drosglwyddo i Senedd y DU, ochr yn ochr â chymhwysedd dros faterion tramor eraill.

Os na fydd y DU bellach yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE, ni fydd yn gallu manteisio ar yr holl gytundebau masnach heblaw am y rhai sydd ganddi yn rhinwedd ei haelodaeth o'r WTO oni bai ei bod eisoes wedi gwneud trefniadau gyda'r UE. Mae yna nifer o fodelau mwyaf tebygol ar gyfer masnachu â'r UE yn y dyfodol, a drafodir yn **Adran 4** 'Modelau amgen i aelodaeth o'r UE'. Y tu allan i'r UE, bydd rhyddid i'r DU gychwyn trafodaethau ar gyfer trefniadau masnach gyda gweddill y byd mewn ffordd nad yw'n bosibl iddi ei gwneud o dan ei haelodaeth o'r UE.

Pan fydd TTIP yn dod i rym, ni fydd y DU yn barti i'r trefniant hwn yn awtomatig. Mae Arlywydd Obama eisoes wedi datgan, os bydd y DU yn gadael yr UE, byddai "yng nghefn y ciw" o ran dod i gytundeb masnach gydag UDA.

Mae gwybodaeth am gyrchfan a mathau o allforion Cymru ar gael ar wefan **Llywodraeth Cymru**. Yn y pedwar chwarter hyd at bedwerydd chwarter 2015, ac yn cynnwys y chwarter hwnnw, UDA (gan gynnwys Puerto Rico) oedd y farchnad allforio fwyaf ar gyfer cynnyrch o Gymru, wedyn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, yr Almaen, Iwerddon a Ffrainc. Yn yr un cyfnod, aeth 41 y cant o gyfanswm gwerth

allforion o Gymru i wledydd yr UE, ac aeth 59 y cant i wledydd y tu allan i'r UE. Ar gyfer y DU gyfan, aeth 47 y cant o allforion i'r UE, ac aeth 53 y cant i wledydd y tu allan i'r UE.

## Cysylltedd

Mae Cytuniadau'r UE yn darparu ar gyfer creu Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd ar draws tiriogaeth yr UE ym meysydd seilweithiau trafniadaeth, telegyfathrebu ac ynni. Yn ogystal, mae'r Cyfleuster Cysylltu Ewrop yn darparu cyllid yr UE ar gyfer datblygu Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd.

Denodd y Rheoliad TEN-T (Trafniadaeth) ddiddordeb gwleidyddol sylweddol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cafodd y gwaith hwn ei arwain gan y Pwyllgor Menter a Busnes, oedd yn edrych ar y seilwaith yng Nghymru oedd wedi'i gynnwys ar y rhwydwaith TEN-T. Un o'r pryderon a gododd y Pwyllgor oedd y ffaith nad yw Cymru wedi'i chynnwys yn y 'coridor' sy'n rhedeg drwy'r DU. Nid oes un darn o seilwaith yng Nghymru wedi'i gynnwys ar Goridor Môr y Gogledd a Môr y Canoldir, sy'n rhedeg drwy'r DU i Iwerddon.

Yn dilyn y bleidlais i adael, mae'n debygol y bydd diddordeb mewn gweld pa fath o effaith a gaiff hyn ar y Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd a chyfraniad y DU, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y DU o ran mynediad Iwerddon at farchnadoedd Ewropeaidd. Gyda prif lwybrau trafniadaeth ar yr wyneb yn rhedeg o Iwerddon a thrwy Cymru i weddill y DU ac Ewrop, bydd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn edrych ar sut y gallai llif nwyddau, gwasanaethau a phobl ar hyd y prif lwybrau teithiwr a chludo nwyddau newid ac unrhyw newidiadau o ran rheoli ffiniau.

Mae'r Rheoliad TEN-T yn nodi'r safonau y byddai angen i rwydweithiau 'craidd' a 'cynhwysfawr' TEN-T gael eu datblygu iddynt erbyn 2030 a 2050 yn eu trefn. Mae'n bosibl na fydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'u rhwymo i'r ymrwymadau hyn ar gyfer yr ardaloedd y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt. Roedd yr ymrwymadau hyn yn cynnwys gofyniad i Lywodraeth y DU drydanu prif reilffyrdd gogledd a de Cymru erbyn 2030.

Yn ogystal, efallai na fydd Llywodraeth Cymru a gweithredwyr seilwaith Cymru bellach yn gallu cael arian yr UE ar gyfer datblygu seilwaith. Er enghraifft, roedd Llywodraeth Cymru a phorthladdoedd Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth Iwerddon a phorthladdoedd Iwerddon ynghylch manteisio ar gyllid Traffyrdd y Môr o dan y Cyfleuster Cysylltu Ewrop, y gellir ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd a chysylltiadau cefnwlad. O dan brosiect Band Eang Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru mae BT ar hyn o bryd yn cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru, a ariennir yn rhannol gan ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE.

Gallai trafodaethau ynghylch parhad y DU (a Chymru) yn y Farchnad Sengl fod yn arbennig o berthnasol yma, gan fod y rhwydweithiau trafniadaeth, telathrebu ac ynni yn cael eu hystyried yn brif sectorau seilwaith i'w datblygu er mwyn cefnogi gweithrediad y Farchnad Sengl.

## Ymfudo a'r UE

Yr hawl i symud a phreswyllo'n rhydd mewn Aelod-wladwriaeth arall yw un o'r hawliau a roddir drwy ddinasyddiaeth yr UE (yn unol ag Erthygl 21 TFEU). Mae unrhyw un sydd â chenedligrwydd un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn 'ddinesydd yr UE', ac felly mae ganddynt yr hawl i symud yn rhydd ar draws yr UE (yn amodol ar rai cyfyngiadau, fel y nodir yn y Gyfarwydddeb 'Rhyddid Personau i Symud'/'Dinasyddion').

Mae 'rhyddid pobl i symud' yn rhoi'r hawl i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE a'u teuluoedd fyw a gweithio unrhyw le yn yr UE. Mae'r hawl hon hefyd yn berthnasol i ddinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y tu allan i'r UE (Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) a'r Swistir.

Yn ogystal â'r rhyddid i "symud a phreswyllo'n rhydd" ledled yr UE o dan ddarpariaethau dinasyddiaeth yr UE, mae'r TFEU yn cynnwys Erthyglau sy'n pennu hawliau gweithwyr a phersonau hunangyflogedig



i symud yn rhydd. Mae set ehangach o hawliau yn cefnogi'r rhyddid i symud, fel diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd yn achos cyflogaeth, a darpariaethau i gydgysylltu nawdd cymdeithasol fel nad yw pobl yn colli hawliau pan fyddant yn arfer eu hawliau i symud yn rhydd.

Mae'n bosibl, fodd bynnag, i Aelod-wladwriaethau gyfyngu mynediad at fudd-daliadau cymdeithasol ar gyfer mewnfudwyr UE o dan amgylchiadau penodol. Yn 2014 **dyfarnodd** Llys Cyfiawnder Ewrop y gall dinasyddion economaidd anweithgar UE sy'n mynd i Aelod-wladwriaeth arall er mwyn cael cymorth cymdeithasol yn unig gael eu heithrio rhag manteision cymdeithasol penodol.

## Mewnfudo i'r DU a Chymru

---

Yr **amcangyfrif presennol** yw bod tua 1.2 miliwn o ymfudwyr o Brydain yn byw yng ngwledydd eraill yr UE, o'i gymharu â thua 3.0 miliwn o ymfudwyr o'r UE yn byw yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 67,000 o bobl yn byw yng Nghymru sydd â chenedligrwydd arall yr UE, ac 80,000 a aned rhywle arall yn yr UE. O ran mewnfudo o'r tu allan i'r UE, mae tua 52,000 o bobl nad ydynt yn ddinasyddion yr UE yn byw yng Nghymru, a 100,000 o bobl a aned y tu allan i'r UE.

Mae cryn dipyn o ymfudwyr y DU yn byw yn Llundain. Cafodd tua 37 y cant o'r bobl sy'n byw yn y DU a gafodd eu geni dramor yn byw yno.

## Cymhwysedd y DU, diddordeb o ran datganoli

---

Nid yw cymhwysedd deddfwriaethol dros fewnfudo wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad. Felly, mae penderfyniadau dros bolisi mewnfudo yn y dyfodol, yn ystod y broses drafod ac wedi i'r DU dynnu allan o'r UE, byddai hyn yn fater i Lywodraeth y DU yn hytrach nag i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae yna ddiddordeb i Gymru yn y safbwynt polisi y bydd Llywodraeth Cymru yn ei fabwysiadu ynghylch ymfudo, yn enwedig o safbwynt effaith penderfyniadau polisi ar lefelau ymfudo yng Nghymru, ac unrhyw effaith y gallai hyn ei chael ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

## Effaith ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

---

Mae papur Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, **Implications of Brexit on Public Services in Wales**, yn codi nifer o faterion ynghylch sut y gallai newidiadau i reolau mewnfudo wedi i'r DU adael yr UE effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yn y gorffennol, mae Cymru wedi llenwi bylchau staffio ar draws y GIG drwy gyflogi meddygon a nyrsys o bob rhan o'r UE;
- Mae'r sector gofal cymdeithasol yn arbennig o ddibynnol ar fewnfudwyr, yn enwedig o ddwyrain Ewrop, sy'n gweithio am gyflogau cymharol isel;
- Dinasyddion yr UE sy'n gweithio mewn rhannau eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae rhannau eraill o'r papur hwn yn nodi bod cryn ddadlau o hyd ynghylch effaith net mewnfudwyr o'r UE ar wasanaethau cyhoeddus – hynny yw, a ydynt yn talu mwy neu lai mewn trethi na gwerth y gwasanaethau cyhoeddus maent yn eu defnyddio.

Efallai y bydd goblygiadau hefyd o ran dinasyddion y DU (llawer ohonynt yn oedrannus) sy'n preswyllo dramor ar hyn o bryd a fydd yn dychwelyd i'r DU ac angen defnyddio llawer o wasanaethau cyhoeddus.

## Gweriniaeth Iwerddon a'r DU

---

Os na fydd y DU bellach yn Aelod-wladwriaeth, bydd yn rhannu ffin diriogaethol â'r UE ar ffurf ffin Gogledd Iwerddon/Gweriniaeth Iwerddon. Bydd trefniadau yn y dyfodol ar gyfer symud rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r DU yn amlwg yn bwysig dros ben i Ogledd Iwerddon, ond hefyd i Gymru i raddau llai, sydd â nifer o gysylltiadau môr rhwng y ddwy wlad.

Mae dinasyddion Iwerddon a'r DU yn gallu symud yn rhydd rhwng Iwerddon a'r DU o dan y trefniadau Ardal Deithio Gyffredin sy'n bodoli rhwng y ddwy awdurdodaeth. Nid yw dinasyddion Iwerddon erioed wedi bod yn destun rheolaethau mewnfudo neu basbort y DU. Caiff dinasyddion Iwerddon eu hystyried yn 'estroniaid nad ydynt o dramor' o dan gyfraith y DU. Ni chaiff y statws hwn ei roi i unrhyw genedligrwydd arall, sy'n adlewyrchu'r berthynas arbennig rhwng y ddwy wlad.

Dywedodd Cydbwyllgor ar Faterion yr UE Tŷ'r Oireachtas (senedd Iwerddon) **y canlynol**:

*UK withdrawal from the EU may have unintended and unwelcome aspects for Ireland and the UK that may adversely impact on the traditional, reciprocal freedom of movement arrangements enjoyed by Irish and UK citizens between jurisdictions.*

---

Dywedodd y Pwyllgor y dylai cadw'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU fod yn "amcan allweddol" i berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol. Wrth gwrs, bydd y mater hwn yn llai o flaenoriaeth os bydd y DU yn dewis un o'r modelau o berthynas yn y dyfodol gyda'r UE sy'n caniatáu i bobl symud yn rhydd yn yr UE a'r DU.

### A fydd gadael yr UE yn gwneud gwahaniaeth?

---

Fel yr eglurwyd yn **Adran 4** ('Modelau amgen i aelodaeth o'r UE'), mae'n rhaid i nifer o wledydd sydd y tu allan i'r UE – fel y rhai yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd – dderbyn rhyddid pobl i symud fel amod er mwyn manteisio ar y Farchnad Sengl. Mae hyn yn golygu, gan ddibynnu ar natur y trafodaethau ar gyfer tynnu'r DU allan, y gallai fod angen i'r DU y tu allan i'r UE orfod derbyn rhyddid pobl i symud o fewn yr UE yn yr un modd ag y mae'n ei wneud nawr. Wrth gwrs, efallai nad dyma'r math o fodel y bydd Llywodraeth y DU yn ei ddewis: ond bydd mewnfudo yn ffactor allweddol wrth lywio trafodaethau yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE.

## 7. Arian yr UE a mynediad at Fanc Buddsoddi Ewrop

### Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n cael, ac yn gymwys i gael, swm sylweddol o arian gan yr UE. Mae nifer o'r rhain eisoes wedi eu crybwyll yn y papur hwn, ond i ailadrodd, maent yn cynnwys:

- **Cronfeydd Strwythurol:** o dan rownd bresennol 2014-2020, dyrannwyd bron £2 biliwn i Gymru gan yr UE - gydag £1.6 biliwn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a thros £325 miliwn i Ddwyrain Cymru.
- **CAP:** o dan y cylch 2014-2020, mae Cymru'n derbyn tua £250 miliwn o gyllid y flwyddyn mewn taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn ogystal â €655 miliwn ar gyfer ei rhaglen datblygu gwledig 2014-2020.
- **Horizon 2020:** dyma raglen yr UE i gefnogi ymchwil a datblygu ac arloesi. Yn ystod rownd 2007-2013, cafodd Cymru dros €140 miliwn o seithfed raglen fframwaith yr UE (FP7), y ffrwd gyllido flaenorol ar gyfer ymchwil ac arloesi. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar gyllid Horizon 2020 o dan y rownd bresennol. Yn 2014, cafodd prosiectau yng Nghymru tua £12 miliwn o'r gronfa hon.
- **Erasmus+:** rhaglen yr UE i gefnogi symudedd ym maes addysg a hyfforddiant.

Mae'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y ffrydiau cyllido hyn yn cael eu gwneud yng nghyd-destun **Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE (MFF)**. Mae'r fframwaith presennol yn rhedeg o 2014 hyd at 2020. Mae'r fframwaith yn pennu'r uchafsymiau blynyddol (y 'nenfydau') y gall yr UE eu gwario mewn meysydd gwleidyddol gwahanol (y 'penawdau') dros gyfnod o bum mlynedd ar y lleiaf. Yn 2016, bydd fframwaith 2014-2020 yn cael ei adolygu gan y Comisiwn Ewropeaidd, a fydd yn cymryd y sefyllfa economaidd i ystyriaeth, yn ogystal â'r rhagamcanion macro-economaidd diweddaraf.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weithredu'r Cronfeydd Strwythurol a'r PAC yng Nghymru. Mae hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â ffrydiau cyllid yr UE ledled Cymru.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y PAC a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ymarferol, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd oedd yn gyfrifol am roi'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar waith yng Nghymru, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig. Yn y Llywodraeth newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig fydd yn gyfrifol am daliadau PAC yng Nghymru.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth oedd yn gyfrifol am weithredu Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru, a hynny drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn ogystal â bod yn gyfrifol am hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â rhaglenni a chyllid yr UE yn holl adrannau'r Llywodraeth. Mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i **gyfleoedd cyllido'r UE 2014-2020** penododd y Gweinidog Cyllid blaenorol dri Llysgennad Cyllid yr UE - llysgenhadon allanol - i hyrwyddo'r defnydd o nifer o raglenni UE 'canolog', gan gynnwys Horizon 2020, Erasmus +, Ewrop Greadigol, Cysylltu Ewrop, a'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol. Gwnaeth **Adroddiad Terfynol Llysgennad Arian yr UE** (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016) nifer o argymhellion i gryfhau'r ffordd y mae adrannau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid o Gymru yn manteisio ar yr ystod eang o gyfleoedd arian a pholisi'r UE sydd ar gael.

O dan Lywodraeth newydd Cymru, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru a 'rhaglenni cysylltiedig', ac eithrio'r PAC/y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Mae nifer o gwestiynau yn codi ynghylch yr effaith y bydd gadael yr UE yn ei chael ar fynediad Cymru i wahanol raglenni ariannu'r UE, yn cynnwys:

- Pa effaith fyddai gadael yr UE yn ei chael ar gyfranogiad Cymru yn y rownd bresennol o arian yr UE ar gyfer cyfnod 2014-2020?
- I ba raddau y byddai cyllid lefel y DU ar gael i gymryd lle'r cyllid sy'n dod gan yr UE ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer Cronfeydd Strwythurol, y PAC a physgodfeydd, ond hefyd mewn meysydd eraill fel ymchwil, addysg, a diwylliant?
- A fydd y DU yn gallu parhau i gymryd rhan yn rhaglenni ariannu'r UE ar ôl gadael yr UE? Os felly, a fydd Llywodraeth y DU yn dymuno gwneud hyn? Os felly, ym mha feysydd? Ac i ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru (a'r Cynulliad) yn rhan o'r atebion i'r cwestiynau hyn ac yn gallu dylanwadu arnynt?

## Cyfraniad net Cymru i gyllideb yr UE

Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru wedi cyhoeddi **ymchwil** sy'n awgrymu bod Cymru – yn wahanol i'r DU gyfan – yn cael budd net o gronfeydd yr UE. Yn seiliedig ar amcangyfrifon o gyfraniad Cymru i gyllideb yr UE a derbyniadau sector cyhoeddus Cymru o arian yr UE, mae'n dod i'r casgliad y cafodd Cymru fudd net o £245 miliwn yn 2014. Gallai hyn hefyd gael ei fynegi fel £79 y pen, neu 0.4 y cant o amcangyfrif cynnyrch domestig gros Cymru. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru yn nodi bod y sefyllfa hon yn wahanol iawn i weddill y DU, a'i bod yn dangos y posibilrwydd o effeithiau anghymesur ar draws y DU yn sgil unrhyw bleidlais bosibl i adael yr UE. Yn seiliedig ar gyfrifiadau tebyg, roedd y DU yn gyfrannwr net o £9.8 biliwn yn 2014, neu £151 y pen.

Mae'r derbyniadau Cymru o gyllideb yr UE yn y dadansoddiad hwn yn cynnwys y rhai sy'n dod drwy'r sector cyhoeddus yn unig. Mae hyn yn cynnwys y ddwy brif ffynhonnell o arian gan yr UE yng Nghymru: y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys arian sy'n cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol gan yr UE i fuddiolwyr yng Nghymru, er enghraifft drwy Horizon 2020 (£12 miliwn yn 2014). Nid yw unrhyw effeithiau posibl ar dwf economaidd a refferniw cyffredinol y Llywodraeth yn sgil gadael yr UE ychwaith wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

## Effaith bosibl gadael yr UE ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

Mae Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (prosiect a gynhelir gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn edrych ar y pwysau hirdymor sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru) wedi cyhoeddi **papur** yn pwysu a mesur effaith bosibl gadael yr UE ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn modelu nifer o sefyllfaoedd posibl o ran effaith gadael yr UE ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan ystyried yr effeithiau ehangach, fel materion staffio a chaffael cyhoeddus.

O ystyried statws y DU fel cyfrannwr net i gyllideb yr UE, mae'n bosibl y gallai cyllid ychwanegol i Gymru gan Lywodraeth y DU dalu am unrhyw ddiffyg o ran arian yr UE yng Nghymru wedi i'r DU adael yr UE. Penderfyniad polisi i'w wneud gan Lywodraeth y DU fyddai hwn.

## Cyllid yr UE yng Nghymru yn dilyn gadael yr UE

Nid yw o reidrwydd yn wir y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu na fyddai'r DU bellach yn cyfrannu at gyllideb yr UE, nac yn derbyn arian ohoni. Fel y trafodwyd yn yr adran 'Modelau amgen i aelodaeth o'r UE', mae gwledydd y tu allan i'r UE sydd ar hyn o bryd â mynediad helaeth at y Farchnad Sengl (fel Norwy a'r Swistir) yn cyfrannu at gyllideb yr UE ac yn cyfranogi i raddau yn ffrydiau cyllid yr UE.

Mae Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn sicrhau cyfranogiad Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy mewn **nifer o raglenni eraill yr UE**, gan gynnwys Horizon 2020 (ymchwil ac arloesi) ac

Erasmus+ (addysg a hyfforddiant). Er nad yw aelodau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn gyffredinol yn gymwys ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae Norwy a Liechtenstein yn gymwys ar gyfer rhai **rhaglenni trawsffiniol a rhyngwladol**. Nid oes unrhyw wledydd o'r tu allan i'r UE yn rhan o'r PAC ar hyn o bryd. Yn y bôn, bydd mynediad y DU i raglenni ariannu'r UE yn y dyfodol – yn y cyfnod rhaglennu presennol (2014-2020) a thu hwnt – yn amodol ar drafodaethau yn ystod y broses i dynnu allan.

## Banc Buddsoddi Ewrop

Banc Buddsoddi Ewrop yw banc yr Undeb Ewropeaidd, sy'n eiddo i'r Aelod-wladwriaethau ac yn cynrychioli eu buddiannau. Mae'r DU yn meddu ar **gyfran o 16 y cant**: yr un faint â'r Eidal, Ffrainc a'r Almaen. Er bod Banc Buddsoddi Ewrop yn buddsoddi y tu allan i'r UE, mae 90 y cant o fenthyciadau yn digwydd o fewn yr Undeb.

Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi buddsoddi ym mhedair gwlad Ardal Masnach Rydd Ewrop (Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir) ers sefydlu Cyfleuster Benthyciad EFTA Banc Buddsoddi Ewrop ym 1994. Caiff prosiectau y mae'r Banc Buddsoddi Ewrop EIB yn rhan ohonynt yng ngwladwriaethau EFTA eu cyllido o adnoddau'r Banc ei hun. Mae'n rhaid iddynt fodloni'r un meini prawf cymhwyster a dilyn yr un gweithdrefnau â'r rheini sydd yn yr Undeb Ewropeaidd.

Dros y degawd blaenorol, mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi buddsoddi bron £2 biliwn yn uniongyrchol yng Nghymru. Daw hyn ar ben buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop mewn rhaglenni ledled y DU, a allai gynnwys dimensiwn Cymreig. Yn 2015, benthycodd Banc Buddsoddi Ewrop £5.6 biliwn i'r DU, ac mae'n amcangyfrif y bydd hyn yn cefnogi cyfanswm buddsoddiad o £16 biliwn. Mae Banc Buddsoddi Ewrop yn dweud ei fod yn benthycia mwy nag erioed i'r DU ac yn cefnogi ystod fwy amrywiol o brosiectau na llawer o wledydd eraill yr UE.

Yn dilyn ymadawiad o'r UE, ni fyddai rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop a gytunwyd eisoes yn y DU yn newid. Fodd bynnag, perthynas y DU â Banc Buddsoddi Ewrop a gweithrediadau'r Banc yn y dyfodol yn y DU yw un o'r materion y bydd angen eu trafod yn ystod y broses o dynnu allan.

Bydd angen i Aelod-wladwriaethau'r UE, gan gynnwys Bwrdd Llywodraethwyr Banc Buddsoddi Ewrop a gweinidogion cyllid Ewrop, drafod a phenderfynu ar fenthyciadau'r Banc yn y DU a lle'r DU yn strwythur cyfranddalwyr y Banc. Mae Erthygl 308 TFEU yn nodi:

---

*The members of the European Investment Bank shall be the Member States.*

---

Caiff hyn ei ailadrodd yn Erthygl 3 o Brotocol Rhif 5 (ar Statud Banc Buddsoddi Ewrop) y TFEU. Felly, heb newid y Cytuniad, byddai gadael yr UE yn golygu na fyddai'r DU bellach yn aelod o Fanc Buddsoddi Ewrop.

Mae'r Banc yn ffynhonnell arall o gyllid y mae sefydliadau yng Nghymru yn gymwys i wneud cais iddi am gymorth. Roedd nifer o brosiectau yn llwyddiannus yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gan gynnwys, **Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Bae ym Mhrifysgol Abertawe**, a agorwyd yn swyddogol ym mis Hydref 2015, ac a gafodd fuddsoddiad o €60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop. Yn ystod 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **nifer o syniadau am brosiectau** i gael cymorth o dan y **Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strwythurol** a reolir gan yr EIB, gan gynnwys prosiect Metro De Cymru.

# Atodiad 1: Cynrychiolaeth a chyfranogiad Cymru ar lefel yr UE

## Sefydliadau'r UE a Chyrff Ymgynghorol

### Ar lefel yr UE:

---

- Pedwar Aelod Senedd Ewrop (ASE) o Gymru
- Pedwar cynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau
- Tri chynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop
- Comisiynydd Ewropeaidd y DU (yr Arglwydd Jonathan Hill ar hyn o bryd)
- Swyddogion yn sefydliadau'r UE (gan gynnwys arbenigwyr ar secondiad o Lywodraeth Cymru – a chyrff eraill yn y DU)

### Yng Nghymru/y DU:

---

- Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r DU: y prif bencadlys yn Llundain, a Swyddfa Cymru bwrpasol yng Nghaerdydd (o dan arweiniad David Hughes ar hyn o bryd)
- Cynrychiolaeth Senedd Ewrop i'r DU: y prif bencadlys yn Llundain, nid oes swyddfa bwrpasol yng Nghymru ar hyn o bryd

### Tŷ Cymru ym Mrwsel:

---

- Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Swyddfa UE Llywodraeth Cymru
- Swyddfa UE Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel

### Rhwydweithiau'r UE (heb fod yn rhestr gyflawn)

---

- Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE): Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llwyfan Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Grŵp Arbenigol Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Fforwm EC-UK: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR): Llywodraeth Cymru
- Rhwydwaith Rhanbarthau Ewrop ar gyfer Ymchwil ac Arloesi (ERRIN): Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel
- Rhwydwaith Arbenigedd Smart: Llywodraeth Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel
- Cyngor Bwrdeistrefi a Rhanbarthau Ewrop (CEMR): Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Eurochild: Plant yng Nghymru
- VANGUARD: Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL): Llywodraeth Cymru a Colegau Cymru

- Rhwydwaith GM: Llywodraeth Cymru
- Cynhadledd Rhanbarthau Ewrop sydd â phwerau deddfu (REGLEG): Llywodraeth Cymru
- Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (NRG4SD): Llywodraeth Cymru
- Y Pedwar Rhanbarth Sbardun: Llywodraeth Cymru
- Y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol: Llywodraeth Cymru
- Rhanbarthau dros Ddiwylliant: Llywodraeth Cymru
- Rhanbarthau Cine: Ffilm Cymru Wales
- Culture Action Europe: Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyfarfod Anffurfiol ar Theatr Ewropeaidd (IETM): Cyngor Celfyddydau Cymru
- Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol Ewrop (EUREGHA): Llywodraeth Cymru
- Partneriaeth Menter Ewrop dros Heneiddio'n Weithgar ac yn Iach: Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Y Rhwydwaith Ewropeaidd o Gymdeithasau Sifil Cenedlaethol: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

## Atodiad 2: Ffynonellau a deunydd darllen pellach

### Yr Undeb Ewropeaidd

- **Gwefan Europa:** Gwybodaeth am yr UE, ei hanes, ei sefydliadau, ac ati
- **Gwefan Europa:** Tudalennau sy'n egluro cyfraith yr UE a'r drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau
- **Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (TEU)**
- **Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)**
- **Gwaith y Comisiwn Ewropeaidd:** Tudalennau sy'n egluro rôl y Comisiwn Ewropeaidd, ei flaenoriaethau gwleidyddol, a chylch flynyddol y Rhaglen Waith
- **Gwybodaeth am Senedd Ewrop:** Tudalennau ar bwerau, strwythur sefydliadol, a hanes Senedd Ewrop
- **Gwybodaeth am Gyngor yr Undeb Ewropeaidd**
- **Llys Cyfiawnder Ewrop**
- **Llys Archwilwyr Ewrop**
- **Banc Buddsoddi Ewrop**
- **Pwyllgor y Rhanbarthau**
- **Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop**
- **Llywyddiaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd**
- **Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MFF)**
- **Cytuniadau masnach yr UE - map llawn o'r gwledydd**

### Llywodraeth y DU

- Llywodraeth y DU, **Review of the Balance of Competences** (Rhagfyr 2014)
- Llywodraeth y DU, **Alternatives to membership: possible models for the UK outside the EU** (Mawrth 2016)

### Adroddiadau gan Senedd y DU / y deddfwrfeydd datganoledig

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Materion Ewropeaidd (cyhoeddiadau rheolaidd)**
- Tŷ'r Arglwyddi: Pwyllgor Craffu yr UE, **Visions of EU Reform** (Mawrth 2016)
- Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, **The process of withdrawing from the European Union** (Mai 2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **EU referendum: impact of an EU exit in key UK policy areas** (Chwefror 2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **EU referendum: UK proposals, legal impact of an exit and alternatives to membership** (Chwefror 2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Leaving the EU: How might people currently exercising free movement rights be affected?** (Mawrth 2016)



- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **EU Referendum: the process of leaving the EU** (Ebrill 2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **EU external agreements: EU and UK procedures** (Mawrth 2016)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Reading list on UK-EU relations 2013-16: reform, renegotiation, withdrawal** (Ebrill 2016)
- Senedd yr Alban: Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol, **The impact of EU membership in Scotland** (Hydref 2015)
- Senedd yr Alban: Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol, **The European Convention on Human Rights in the United Kingdom** (Medi 2015)
- Cynulliad Gogledd Iwerddon, **The EU Referendum and Northern Ireland: Information Resources** (Mawrth 2016)
- Cynulliad Gogledd Iwerddon, **The EU referendum and potential implications for Northern Ireland** (Ionawr 2016)

### **Ffynonellau academaidd a melinau trafod**

- Coleg y Brenin Llundain, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, **The UK in a Changing Europe**
- Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddiaeth Llundain **BrexitVote**
- Civitas - **The Eurosceptic's Handbook: 50 live issues in the Brexit debate** (Mai 2016)
- Ffederasiwn y Busnesau Bach – **EU Referendum campaigns answer top small business questions** (Mai 2016)
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, **Brexit and the UK's Public Finances** (Mai 2016)
- Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol - **The long-term macroeconomic effects of lower migration to the UK** (Mai 2016)
- Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus **Free movement and the EU referendum** (Mawrth 2016)
- Prifysgol Regent's, **The UK and the EU: Are there Alternatives to EU Membership?** (Ionawr 2015)
- New Statesman, **The rise of the Anglosphere: how the right dreamed up a new conservative world order** (Chwefror 2015)
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, **No alternative to EU membership offers better balance of pros and cons** (Tachwedd 2013)
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, **Two Futures (Adroddiad ar yr UE yn 2016)** (Ebrill 2016)
- Lexology, **How Brexit will affect procurement issues** (Mai 2016)
- Y Ganolfan ar Newid Cyfansoddiadol, **British withdrawal from the EU: an existential threat to the United Kingdom?** (Mai 2016)
- Canolfan Economeg ac Ymchwil Busnes, **British Jobs and the Single Market** (Mawrth 2014)
- Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, **Goblygiadau Brexit ar Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru** (Mai 2016)

- Canolfan Llywodraethiant Cymru, **Wales and the EU Referendum: Estimating Wales' Net Contribution to the European Union** (Mai 2016)
- Canolfan Llywodraethiant Cymru, **Hwb Canolfan Cymru a'r UE** (Amrywiaeth o bapurau briffio / papurau ar Gymru a'r UE)

## Iwerddon

- Coleg y Brenin, Llundain, Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, **Why Ireland wants the UK to remain in the EU** (Mawrth 2016)
- Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddiaeth Llundain, **A British departure would have major consequences for Ireland, both North and South** (Mawrth 2016)
- Sefydliad Rhyngwladol a Materion Ewropeaidd (Iwerddon), **Brexit: What Happens Next?** (Mai 2016)
- Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (Iwerddon), **Scoping the Possible Economic Implications of Brexit on Ireland** (Tachwedd 2015)
- Gwasanaeth Newyddion Llywodraeth Iwerddon, **Araith gan y Taoiseach, Mr Enda Kenny TD yng Nghynhadledd Bloomberg ar Oblygiadau gadael yr UE i Iwerddon** (Mai 2016)
- Gwasanaeth Newyddion Llywodraeth Iwerddon, **y Gweinidog Murphy yn dweud bod partneriaid Ewropeaidd yn gosod gwerth mawr ar rôl y DU o fewn yr UE** (Mai 2016)
- Trafodaeth ar gyfer Pwyllgor yr UE Materion Tramor Oireachtas, **Beth sy'n digwydd i gysylltiadau Gogledd-De, a chysylltiadau trawsffiniol, os bydd Prydain yn gadael yr UE?** (Ebrill 2015)
- Cyd-bwyllgor ar Faterion Undeb Ewropeaidd, **UK/EU Future Relationship: Implications for Ireland** (Mehefin 2015)